# Canllaw Ymchwil ar Ffynonellau ar gyfer Astudio Hanes Ethnig Lleiafrifol



Glamorgan Archives
Archifau Morgannwg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Integration Justice Equality
Integreiddio Cyfiawnder Cydraddoldeb
Race Council Cymru

**Cydnabyddiaeth**

*Partneriaid y Prosiect*

Archifau Morgannwg
Cyngor Hil Cymru
Norena Shopland

*Swyddog Prosiect*

Ophelia Dos Santos

*Ymchwilwyr*

Renee Eshel
Myya Helm
Michael Jonas

*Gwirfoddolwyr*

Elin Mackenzie-Davies
Mali Gupta-Archer
Alex Herbert
Ffion Kidwell
Angela May
Gwenhwyfar Oglesby
Simone Onyewu
Maia Reid
Helen Roach
Sarika Sarvia

*Myfyrwyr ar leoliad*

Maya Brookes
Menna Ellis
Abbie Harper
Bleddyn Smith

*Cyfraniad golygyddol i'r adnoddau hyfforddi*
Yasmin Begum

© Archifau Morgannwg 2024

Clawr: Angelina Street / Welcome Mission, Caerdydd, Llun o blant mewn pasiant gwisg ffansi yn Neuadd yr Angelina Street Mission, c1920 (cyf. DX819/11)

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | t 4 |
| Rhagair | t 9 |
| Rhestr ffynonellau | t 11 |
| Ffynonellau a gedwir mewn mannau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Morgannwg | t 31 |
| Geirfa | t 36 |


**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad I | Enghreifftiau geirfa wedi'u hehangu |
| | Rhan 1 – Cyffredinol |
| | Rhan 2 – Pobl |
| | Rhan 3 – Swyddi |
| | Rhan 4 – Lleoedd |
| | Rhan 5 – Hiliau |
| | Rhan 6 – Termau Cymraeg |
| Atodiad II | Canfyddiadau ymchwilwyr |
| Atodiad III | Rhestr Ddarllen |

**Cyflwyniad**

Lluniwyd y canllaw hwn gan Archifau Morgannwg ar gyfer ymchwilwyr i hanesion ethnig leiafrifol. Mae'n cyfeirio ymchwilwyr at gasgliadau o ddiddordeb a dulliau o adnabod unigolion a chymunedau nad oedd wedi'u hadnabod gynt neu heb gynrychiolaeth ddigonol. Drwy ddefnyddio astudiaethau achos seiliedig ar ddeunydd a gedwir yn yr archif, mae'n cyflwyno llwybrau tuag at ddatgelu hanes lleiafrifol. Mae'r canllaw yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cydnabod, eu deall a'u dathlu fel rhan annatod o dreftadaeth Morgannwg, ac mae ganddo rôl hanfodol mewn hyrwyddo cynwysoldeb hanesyddol, cydlyniant cymdeithasol, ac ymchwil yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae'r term 'lleiafrif ethnig' yn cwmpasu sbectrwm hynod eang o gymunedau amrywiol, felly roedd creu canllaw ymchwil cynhwysfawr yn her sylweddol. Mae pob label eang yn grwpio ystod eang o gefndiroedd hil, diwylliannol, ieithyddol a ffydd, ac mae gan bob un ei hanes, ei draddodiadau a'i brofiadau unigryw ei hun yng Nghymru. Mae cyfansoddiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y wlad ei hun wedi esblygu dros amser. Mae tonnau o fewnfudo a setlo wedi dod â gwahanol gymunedau i'r amlwg, gyda demograffeg yn symud yn barhaus oherwydd patrymau adleoli a pherthnasoedd dynol. Mae labeli'n newid yn gyson sy'n dod â set arall o heriau i ymchwilwyr, wrth i'r union gysyniad o 'leiafrif ethnig' dynnu sylw at natur esblygol categorïau cymdeithasol. Mae diffiniadau a therminoleg yn newid dros amser a gallant fod yn oddrychol, gan bwysleisio'r angen i ymchwilwyr fod yn gyfarwydd â thermau'r gorffennol, y mae rhai ohonynt bellach yn cael eu hystyried yn annerbyniol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae yna, fel y mae'r canllaw hwn yn ei wneud yn glir, ddulliau ac offer ymchwil cyffredinol y gellir eu defnyddio i ddechrau'r broses o adfer hanesion coll o archifau.

Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru a phwysigrwydd eu presenoldeb hanesyddol yn ysgogi diddordeb newydd mewn cywiro hepgoriadau hanesyddol yn ein dealltwriaeth o'r gorffennol. Rydym wedi dibynnu bron yn gyfan gwbl ar ffynonellau lleol neu gymunedol: papurau teuluol, hanesion llafar, adrodd straeon. Waeth pa mor hanfodol yw'r rhain, ac y byddant yn parhau, rydym bellach yn cydnabod potensial cofnodion 'swyddogol' i fireinio ein gwybodaeth am fywyd yn ne-ddwyrain Cymru dros amser.

Mae cofnodion hanesyddol traddodiadol wedi pwysleisio profiadau poblogaethau mwyafrifol yn rhy aml. Mae hyn yn ategu'r angen i unioni achosion o ymylu yn y gorffennol 'awdurdodedig' ar y pryd. Mae gan Gymru boblogaeth leiafrifoedd ethnig lai o'i chymharu â rhai rhannau o Brydain, ac o ganlyniad mae'r cofnodion yn fwy prin. Mae hyn felly'n gofyn am ddulliau amgen. Yn anochel, mae hanes diwydiannol cyfoethog Morgannwg wedi gadael cofnodion sylweddol, sy'n datgelu presenoldeb lleiafrifol clir. Roedd gan lawer o gymunedau gysylltiadau agos â ffawd economi'r porthladdoedd a'r morwyr, ac roedd y rhain yn aml yn wynebu tlodi neu ymyleiddio. Roedd yr unigolion hyn yn llai tebygol o adael cofnodion y gellir eu holrhain, er enghraifft, drwy gyhoeddi gwaith neu ennyn ganmoliaeth gyhoeddus. Ein hunig opsiwn felly yw chwilio'n rhywle arall i ddeall eu bywydau'n llawn y tu hwnt i'r gweithle. Yn

hynny o beth, gall dogfennau swyddogol fel Cymorth Plwy neu gofnodion tloty ddatgelu'r realiti anodd i rai ar y pryd.

Mae heriau ychwanegol yn cynnwys rhagfarnau sefydliadol o ran sut y casglwyd ac y trefnwyd archifau, gyda llawer yn adlewyrchu safbwyntiau hen ffasiwn ar hil, ffydd ac ethnigrwydd. Mae llywio'r casgliadau wedi bod yn her ynddo ei hun. Bu tueddiadau yn y termau chwilio a diffyg presenoldeb ar-lein yn rhwystrau i ymchwilwyr annibynnol neu'r tu allan i'r byd academaidd traddodiadol. Mae datgelu'r hanesion hyn eisoes wedi gofyn am gyfuniad o sgiliau ymchwil archifol ochr yn ochr â dealltwriaeth o gyd-destun hanesyddol ac esblygiad yr iaith a ddefnyddir ym maes hanes lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn, ynghyd ag absenoldeb cyffredinol deunydd archifol o ddemograffeg penodol o ganlyniad i bolisïau casgliadau cul, wedi gadael cymunedau cyfan heb gynrychiolaeth ddigonol mewn archifau.

Mae cyrraedd y pwynt lle rydym bellach yn gallu cyhoeddi'r canllaw hwn yn ben llanw i waith dros gyfnod hir i'r sawl sy'n ymchwilio i hanes lleiafrifoedd ethnig. Weithiau mae gwybodaeth am unigolion wedi'i gwasgaru ar draws sawl casgliad (cofnodion llongau, papurau llys, darnau o bapurau newyddion) sy'n gofyn am groesgyfeirio estynedig a gwytnwch gan ymchwilwyr. Mewn llawer o archifau sirol neu genedlaethol, mae terminoleg anghyson neu anghywir wedi llesteirio ymchwil ers amser maith, gan adael cofnodion heb eu darganfod. Rhaid i strategaethau ymchwil gynnwys ymwybyddiaeth o dermau hynafol neu broblemus a ddefnyddir mewn cofnodion blaenorol, gan y gallai eu heithrio olygu colli gwybodaeth werthfawr. Mae'r eirfa hanfodol yn y canllaw hwn yn ddefnyddiol, yn angenrheidiol, ac yn anodd ei ddarllen ar yr un pryd.

Mae dealltwriaeth o brosesau casglu neu adrodd data cynnar hefyd yn ddefnyddiol. Efallai bydd cofnod cyfrifiad o'r 19eg ganrif yn rhestru gwas cartref fel 'mulatto'; tra bydd erthygl mewn papur newydd yn sôn am 'ddyn croenddu' a fu ynghlwm wrth achos cyfreithiol. Heb unrhyw wybodaeth bellach, sut mae ymchwilydd modern yn dod o hyd i fwy am unigolion o'r fath? Mae'r diffyg nodweddion penodol yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i gofnodion pellach yn ymwneud â'r naill berson neu'r llall.

Mae chwilio cyd-destunol creadigol yn bwysig; roedd llawer o unigolion o gefndiroedd mewnfudo wedi sefydlu busnesau, clybiau cymdeithasol ac eglwysi. Gall cofnodion y sefydliadau hyn gynnwys enwau nad ydynt yn dod i'r amlwg mewn ffynonellau prif ffrwd. Mae chwilio am 'forwr du' neu 'forwr Affricanaidd' yn ddechrau da i straeon morwrol, ond gall defnyddio cenedligrwydd arwain at fwy o ganlyniadau. Gallai 'morwr Caribïaidd' (neu Jamaicaidd neu Trinidadaidd, ac ati) neu 'morwr India'r Gorllewin' ddwyn mwy o ffrwyth. Mae 'Lascar', term cymhleth sy'n cwmpasu ethnigrwydd Asiaidd eang, hefyd yn ddefnyddiol.

Bydd dod yn gyfarwydd â geirfa leol neu sector-benodol yn agor mwy o gofnodion. Roedd llysenwau ymhlith gweithwyr diwydiannol neu forwrol yn gyffredin, ac felly gall gwybod slang gweithwyr dociau Indiaidd neu Ddu neu lowyr arwain at ddarganfyddiadau. Mae croestoriadau o dangynrychiolaeth hefyd yn dod â heriau;

Mae chwilio am fenywod Dwyrain Asia yn gofyn am o leiaf dealltwriaeth o'r rolau economaidd lle roedd eu presenoldeb yn hysbys. Roedd menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn gweithio mewn golchdai dillad, yn gwneuthurwyr ffrogiau, ac yn geidwaid tai preswyl ar gyfer morwyr. Yn aml, mae'r unigolion hun wedi bron diflannu, ond efallai nad ydyn nhw wedi diflannu'n llwyr.

Er nad oedd gan Gymru erioed unrhyw ddeddfwriaeth benodol i wahaniaethu ar sail hil y gellid archwilio cofnodion llys ar ei sail (megis yn achos cyfunrhywioldeb), gallai dealltwriaeth o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn arbennig dros y 60-70 mlynedd diwethaf amlygu agweddau cymdeithasol y cyfnod, safbwyntiau gwleidyddol ar fewnfudo, a gallai ddatgelu enwau gweithredwyr lleol. Er bod cyfyngiadau cyfreithiol yn cyfyngu ar fynediad at ddogfennau swyddogol yn ystod gwahanol gyfnodau, gall erthyglau papur newydd a cheisiadau rhyddid gwybodaeth gynnig mewnwelediadau i faes astudio penodol. Mae deddfwriaeth arwyddocaol yn cynnwys Deddfau Cysylltiadau Hiliol 1965, 1968, a 1976, a Deddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghymru, bydd cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn 2021 yn esgor ar lawer o ganlyniadau i ymchwilwyr y dyfodol.

Mae papurau newydd hanesyddol hefyd yn cynnwys erthyglau ar aflonyddwch sifil, megis terfysgoedd hil 1919 yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Barri. Efallai y byddant hefyd yn ymdrin ag ymatebion y cyhoedd i arferion gwaharddol anffurfiol – y bar y cyfeiriwyd ato fel y 'colour bar' – mewn clybiau nos a neuaddau dawns. Roedd rhai lleoliadau'n hysbysebu polisïau yn agored a oedd yn gwadu mynediad i bobl o ymddangosiad nad oeddent yn wyn. Hyd yn oed heb arwyddion, roedd sefydliadau'n aml yn defnyddio tactegau annheg gyda chwsmeriaid nad oeddent yn wyn a oedd yn creu awyrgylch o elyniaeth mewn cymunedau lleol. Roedd arferion gwahaniaethol yn amrywio yn ôl lle, amser a rhanbarth yng Nghymru a'r DU yn ehangach, ond gallai chwilio am aflonyddwch cyhoeddus cysylltiedig â'r mathau hyn o weithgarwch brofi'n werth chweil.

Mae cofnodion archifol yn aml yn adlewyrchu anghydbwysedd pŵer, ac felly rydym yn pwysleisio pwysigrwydd chwilio am leisiau amrywiol fel amcan allweddol i ymchwil hanesyddol foesegol. Fodd bynnag, gall deunyddiau ffynhonnell sylfaenol fel y rhai a gynhyrchir gan awduron a beirdd gwyn gynnwys gwybodaeth werthfawr am leiafrifoedd ethnig. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r ffynonellau hyn â llygad beirniadol, gan ystyried y cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol y cawsant eu creu ynddo. Bydd hyn yn helpu i adnabod rhagfarnau posibl a sicrhau nad yw naratifau hanesyddol yn seiliedig yn unig ar safbwyntiau'r rhai sydd mewn safleoedd o bŵer. Fel y noda'r canllaw, mae'r ymgyrchydd gwrth-gaethwasiaeth Iolo Morganwg ac eraill a fu'n ymwneud ag ymgyrchoedd gwrth-gaethwasiaeth wedi gadael cofnodion gwerth eu nodi o gyfnod arwyddocaol yng ngorffennol imperialaidd Prydain, un a effeithiodd ar fywydau cannoedd o filoedd o gaethweision yn yr ymerodraeth.

Yn aml gall fod yn haws adnabod cymuned yn hytrach na straeon personol, ond gall y rhain yn eu tro arwain at adnabod unigolion. Mae straeon personol yn meithrin empathi y tu hwnt i ystadegau; mae trafferthion menyw o dras Somalïaidd i ddod o

hyd i gartref yng Nghaerdydd y 1950au yn fwy dirdynnol o gofio bod pobl Dduon yn wynebu gwahaniaethu. Maen nhw hefyd yn ffordd ddefnyddiol o osgoi ystrydebu, gan fod straeon unigryw yn chwalu portreadau monolithig. Mae dod o hyd i bwyntiau cyffredin ym mywydau pobl, fel angerdd am gerddoriaeth, uchelgais mewn gwaith, neu gariad at deulu, yn ein hatgoffa o ddynoliaeth gyffredin ar draws gwahaniaethau. Mae straeon unigol yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o asiantaeth a chymhlethdod. Maen nhw'n datgelu sut yr aeth unigolion i'r afael â heriau, sut y gwnaethon nhw ddewisiadau, a sut y buon nhw'n byw eu bywydau yng nghyd-destun ehangach ethnigrwydd a phrofiadau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r canllaw yn dangos pwysigrwydd cydweithio. Mae rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig, sy'n ymwybodol o golli eu hanesion eu hunain yn absenoldeb llwybrau confensiynol, wedi casglu cofnodion sylweddol eu hunain, megis Casgliad Hanes a Chanolfan Celfyddydau Butetown, y cyfeirir ato yn y canllaw hwn. Yn ogystal, mae mewnwelediad cydweithredol i ddehongli terminoleg ac adnabod termau chwilio yn amhrisiadwy. Mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cynnig mwy na chyngor yn unig o ran yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr archifau. Gallan nhw hefyd gynghori ar y bylchau, er enghraifft pa grwpiau nad ydyn nhw'n ymddangos ryw lawer yn yr archifau a pha fath o ddeunyddiau y dylid eu casglu: beth sydd o arwyddocâd hanesyddol yn *eu tyb nhw*.

Mae'r strategaethau hyn yn gofyn am amynedd a bod yn gyfforddus gyda mynd ar y trywydd anghywir weithiau. Mae ymchwil hanes lleiafrifoedd ethnig Cymru yn aml yn broses o ddatgelu darnau a darllen rhwng llinellau archifau presennol. Nid yw diffyg deunydd sy'n weladwy ar unwaith yn golygu diffyg presenoldeb. Er ei fod yn rhwystredig i ymchwilwyr, fodd bynnag, gall absenoldeb cofnodion o'r fath awgrymu rhywbeth cadarnhaol: gallai awgrymu nad oedd unigolion yn cael eu categoreiddio na'u labelu fel mater o drefn mewn dogfennau swyddogol yn seiliedig ar eu gwahaniaethau ethnig. Gallai hyn ddangos rhywfaint o oddefgarwch neu ddifaterwch i wahaniaethau y gallem eu pwysleisio heddiw, gan gynnig persbectif gwahanol ar ddeinameg gymdeithasol hanesyddol yn ein dealltwriaeth o gofnodion swyddogol.

I unigolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, fodd bynnag, mae datgelu cysylltiadau personol neu hynafiaethol mewn cofnodion hanesyddol yn meithrin ymdeimlad pwerus o berthyn ac yn atgyfnerthu eu hymdeimlad o le yn hanes Cymru. Mae agor y gorffennol hwn yn herio'r camsyniad mai cymdeithas unffurf oedd Cymru, gan arwain at ddealltwriaeth fwy cymhleth a chynhwysol o'r profiad Cymreig. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael ag ideoleg hiliol sy'n gosod lleiafrifoedd ethnig fel 'nhw', 'pobl o'r tu allan', neu ddyfodiaid diweddar, rhywbeth sydd wedi cyfrannu at ansefydlogrwydd cymunedol ehangach.

Mae gwerth canllawiau fel hyn yn gorwedd gyda chydnabod cyfoeth a chymhlethdodau hunaniaethau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, tra'n darparu offer ac adnoddau ar gyfer ymchwiliadau penodol sy'n datgelu straeon sy'n aros i gael eu hadrodd. Mae ei botensial addysgol yn ddifesur. Mae angen ystyried bod y canllaw

hwn a'r archif ei hun yn esblygu, a bydd y ddau yn newid wrth iddynt gael eu defnyddio gan nifer cynyddol o gymunedau amrywiol.

Rhagor o wybodaeth yma:

Mae’r adnoddau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwilio i hanes lleiafrifoedd ethnig yn parhau’n annigonol. Dyma rai, ynghyd â llyfrau sy'n trafod profiadau byw o fod yn 'wahanol' yng Nghymru neu'r DU.

- Mae Yr Archifau Cenedlaethol: Hanes Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnwys rhestr â dolenni at adnoddau.
- Cymdeithas y Cyfreithwyr: A guide to race and ethnicity terminology and language.
- Llywodraeth Cymru: Welsh Language Race and Ethnicity Terminology.
- Hull History Centre: Ethnic Minority Voices.
- Archifau Cymru, Revealing the Lived Experiences of Black, Asian and Minority Ethnic People in Wales.
- Charlotte Williams, Sugar and Slate (Black Britain Writing Back 12, Penguin, 2023). Cofiant pwerus menyw treftadaeth gymysg o’i magwraeth yng ngogledd Cymru a’i phrofiadau yn Affrica a’r Ynysoedd Caribïaidd.
- Alan Llwyd, Cymru Ddu/Black Wales: A History of Black Welsh People (S4C, 2005). Datgelu straeon unigolion a chymunedau Du yng Nghymru dros y canrifoedd.
- Angela Hui, Takeaway: Stories from a Childhood Behind the Counter (Trapeze, 2022). Tyfu i fyny mewn tecawê Tsieineaidd ym Meddau.
- Darren Chetty, et al (editors), Welsh Plural (Repeater Books, 2022).
- Peter Fryer, Staying Power: The history of black people in Britain (Pluto Press, 1984). Yn dal i fod yn un o'r adnoddau gorau ar y pwnc hwn.
- Gemma Romain, Race, Sexuality and Identity in Britain and Jamaica: The biography of Patrick Nelson, 1916-1963 (Bloomsbury Academic, 2017). Mae'n dilyn bywyd dyn hoyw du, a fu’n gweithio am gyfnod fel gwas yng nghefn gwlad Cymru.
- Social media: Community groups, individuals, archives, historians, and academics are sharing their research on minority histories in Wales across multiple social media platforms.

Dr Marian Gwyn, Pennaeth Treftadaeth, Cyngor Hil Cymru

Mae Cyngor Hil Cymru yn clodfori Archifau Morgannwg am y canllaw newydd hanfodol hwn. Erbyn hyn mae gan ymchwilwyr, waeth beth fo'u cefndir, offeryn pwerus i ddatgelu'r straeon amrywiol sydd wedi'u plethu yn hanes Cymru. Mae'n arwydd o ymrwymiad i dirwedd treftadaeth lle gall pawb gael eu cynrychioli, gan gyfoethogi ein dealltwriaeth gyffredin o'r gorffennol ymhellach.

Mae'r ymchwil fanwl a'r ystyriaeth ofalus a aeth i mewn i'r canllaw hwn yn amlwg. Mae Archifau Morgannwg yn dangos eu bod yn deall nad yw dod o hyd i hanesion

cynhwysol yn ymwneud â'r gair 'cywir' yn unig, ond yr ymagwedd cywir. Mae cyfoeth hanes mor aml yn teimlo'n anhygyrch, yn enwedig i'r rhai y mae eu cymunedau wedi cael eu gwthio i'r cyrion. Mae hyn yn grymuso; mae'n rhoi'r arfau i bobl ddarganfod eu treftadaeth eu hunain, ac wrth wneud hynny, hawlio eu lle haeddiannol yn hanes Cymru.

Mae'n ganllaw i bawb, ond i ymchwilwyr ifanc o leiafrifoedd ethnig yn enwedig, mae'n gwneud mwy na darparu termau chwilio; mae'n tanio cysylltiad â hanes. Yn sydyn, daw'r gorffennol yn berthnasol, ac yn lle y mae hwythau hefyd yn gallu gweld cyfraniadau eu hynafiaid i Gymru heddiw.

Mae Cyngor Hil Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn yn llawn ac yn annog sefydliadau treftadaeth eraill ledled Cymru i gymryd ysbrydoliaeth ohono.

Yr Athro Uzo Iwobi CBE, Prif-Weithredwr Cyngor Hil Cymru

**Rhagair**

The production of this guide was funded through the Welsh Government's Anti-Racist Wales Culture Heritage and Sport Fund. It was produced in partnership with Race Council Cymru and Historian and Researcher Norena Shopland.

Nod y canllaw hwn yw tynnu sylw at bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod cymunedau Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol, a bod y gynrychiolaeth honno'n cael ei gwneud gan bobl ethnig leiafrifol eu hunain.

Cafodd tri ymchwilydd gyrfa gynnar eu recriwtio i archwilio'r casgliadau yn Archifau Morgannwg. Gwnaethant ymgymryd â'r ymchwil fwy manwl a chymhleth sydd ei hangen. Ein nod oedd cefnogi ymchwilwyr newydd a gyrfa gynnar drwy'r prosiect hwn. Darparwyd canllawiau ar ddeunyddiau i'w harchwilio a dulliau ymchwil sy'n briodol i'w gwaith.

Cafodd grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr eu recriwtio i gefnogi'r gwaith ymchwil. Denodd y prosiect wirfoddolwyr o ystod o gefndiroedd a phrofiadau, llawer ohonynt â rhywfaint o gysylltiad â'r ffocws ymchwil. Rydym yn cydnabod bod y weithred o wirfoddoli ei hun, a mynediad at yrfaoedd treftadaeth, yn cynnwys rhwystrau i fynediad. Er enghraifft, cyfyngiadau amser sy'n cael eu dwysáu i bobl sy'n astudio, sydd mewn cyflogaeth lawn-amser, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, a phobl o gefndiroedd incwm isel neu ymylol.

Anogwyd gwirfoddolwyr i ddefnyddio adnoddau ar-lein fel Papurau Newydd Cymru Ar-lein i gynnal eu hymchwil, gan eu galluogi i gymryd rhan gartref. Roedd eu rôl yn canolbwyntio ar brofi termau'r eirfa (a geir ar dudalen 36) i ddatgelu straeon yn ymwneud â hanes Ethnig Leiafrifol ym Morgannwg. Rhoddodd y prosiect hyfforddiant ymchwil gwerthfawr i wirfoddolwyr dan arweiniad yr Hanesydd a'r Ymchwilydd Norena Shopland, yn cwmpasu sgiliau casglu data, terminoleg ac ymchwil methodoleg y gellir manteisio arnynt y tu hwnt i'r prosiect hwn, er enghraifft wrth eu cymhwyso i ymchwil treftadaeth deuluol neu brosiectau ymchwil eraill. Roedd gwirfoddolwyr yn awyddus i gyfrannu eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd i helpu i rannu'r maes pwysig hwn o hanes. Dangosodd eu parodrwydd i gymryd rhan ymrwymiad gwirioneddol i warchod a dathlu treftadaeth ddiwylliannol cymunedau Ethnig Leiafrifol Morgannwg. Diolchwn iddynt i gyd am eu hymroddiad; hebddyn nhw ni fyddai cynhyrchu'r Canllaw hwn wedi bod yn bosibl.

Ffocws daearyddol y Canllaw hwn yw'r ardal a wasanaethir gan Archifau Morgannwg, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol presennol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg, a chyn-ardal Cwm Rhymni ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Tynnwyd rhai enghreifftiau o ymhellach i ffwrdd lle bo hynny'n briodol, yn enwedig o Orllewin Morgannwg, gan fod rhai o'r casgliadau a gedwir yn Archifau Morgannwg, fel y rhai ar gyfer y Llys Chwarter a Chyngor Sir Morgannwg, yn ymwneud â holl sir hanesyddol Morgannwg.

Rydym wedi cyfeirio'r storfeydd archif mawr eraill ym Morgannwg a Chymru, fel y bo'n briodol.

Mae'r Canllaw hwn yn tynnu sylw at ffynonellau sydd ar gael ar gyfer astudio Hanes Lleiafrifoedd Ethnig. Ystyriwn fod hyn yn ymwneud â phobl o liw, gan gynnwys pobl Dduon, Arabaidd, De Asiaidd a Dwyrain Asiaidd. Nid ydym wedi archwilio cofnodion sy'n ymwneud â phobl Iddewig na chymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr. Ein bwriad yw datblygu canllawiau penodol ar y meysydd ymchwil hyn yn y dyfodol.

**Rhybudd cynnwys**

Mae'r canllaw ymchwil hwn yn cynnwys iaith sarhaus, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i sarhau hiliol, termau difrïol, a mathau eraill o iaith wahaniaethol. Mae'r termau hyn wedi'u cynnwys at ddibenion ymchwil o fewn cyd-destun hanesyddol. Fodd bynnag, cynghorir darllenwyr y gallai dod ar draws iaith o'r fath beri gofid neu ddicter.

**Rhestr ffynonellau**

Mae'r rhestr hon yn tynnu sylw at y casgliadau a gedwir yn Archifau Morgannwg sydd o'r pwysigrwydd mwyaf wrth ymchwilio i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae unrhyw gyfres o gofnodion, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys enwau unigolion, yn debygol o gynnwys pobl Ethnig Leiafrifol. Anaml y caiff ethnigrwydd ei ddiffinio yn y cofnodion, a gall fod yn anodd ei adnabod yn ôl enw yn unig, oni bai bod enw yn cyfeirio at dreftadaeth benodol neu oni bai bod ffotograff wedi'i gynnwys. Felly, rydym wedi cyfyngu ein ffocws i'r casgliadau hynny sy'n arbennig o berthnasol wrth ymchwilio i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae'r casgliadau yn Archifau Morgannwg yn dyddio o'r 12fed ganrif. Ond mae twf yn y boblogaeth yn ystod y chwyldro diwydiannol, o ddiwedd y 18g hyd y 19g a'r 20g, yn golygu bod mwy o ffynonellau wedi goroesi o'r cyfnod hwn.

Trefnir y casgliadau yn ôl maes pwnc. Rhoddir cyflwyniad byr i'r math o wybodaeth y maent yn ei chynnwys a'r rhesymau dros eu cynnwys yn y canllaw. Rhestrir cyfeiriadau dogfennau a gellir eu defnyddio i archwilio'r casgliadau yn fanylach drwy gatalog Archifau Morgannwg, Canfod.

Mae eitemau o rai o'r casgliadau a welir wedi'u digideiddio ac maent ar gael i'w chwilio ar-lein. Lle mai dyma'r achos, nodwyd y ffynonellau ar-lein.

Sylwch y gellir cyfyngu ar fynediad i wybodaeth am unigolion a enwir o fewn cofnodion sy'n llai na 100 mlwydd oed yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol arall.

*Sefydliadau cymunedol*

<u>Casgliad Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown (D1856)</u>
Sefydlwyd Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown ym 1988. Roedd wedi'i lleoli ar Stryd Bute, Caerdydd. Roedd y ganolfan yn casglu deunydd yn ymwneud â hanes ardal Butetown / Tiger Bay, yn enwedig hanesion llafar a ffotograffau. Caeodd y ganolfan yn 2017 a throsglwyddwyd y casgliad i Tiger Bay and the World. Trosglwyddwyd yr hanesion llafar i Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru. Rhoddwyd y deunydd sy'n weddill yn Archifau Morgannwg.

Mae'r casgliad yn cofnodi gweithgareddau Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown ac yn adlewyrchu cymuned Tiger Bay, un o'r cymunedau amlddiwylliannol mwyaf amrywiol yn y DU gyda phobl o dros 50 o wahanol genhedloedd. Mae'r eitemau'n cynnwys cylchlythyrau, ffotograffau o bobl, lleoedd a digwyddiadau, papurau personol gan gynnwys papurau morwyr, toriadau newyddion, trawsgrifiadau o gyfweliadau, a gwaith celf.



*Casgliad Butetown History and Arts Centre, Lun o blant yn Ysgol South Church Street, 1930 (cyf. D1856 / 007-0905-064)*

Ar adeg cyhoeddi, mae'r casgliad yn y broses o gael ei gatalogio a bydd rhestr lefel eitem lawn ar gael ar gatalog Archifau Morgannwg unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Mae sefydliadau cymunedol eraill sydd â chasgliadau nodedig yn cynnwys South Wales Intercultural Community Arts (SWICA) (cyf. D1298). Wedi'i sefydlu ym 1990, cyflwynodd gweithdai cyntaf SWICA gelfyddydau carnifal ac offerynnau taro samba mewn lleoliadau cymunedol ledled Caerdydd. O'r gwreiddiau yma tyfodd Carnifal Caerdydd a Samba Galez. Mae'r casgliad yn cynnwys llawer iawn o ddeunydd ffotograffig yn cofnodi carnifalau a gorymdeithiau. Sefydlwyd VCS Cymru (cyf. D1618) ym 1964 fel elusen gweithredu cymdeithasol annibynnol a ddatblygodd weithredu cymunedol ar lawr gwlad yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Buont yn gweithio i helpu pobl a'u cymunedau i ffynnu trwy dreftadaeth, y cyfryngau a chyfleoedd gwirfoddoli â chymorth. Mae’r cofnodion yn ymwneud â gweithgareddau VCS o fewn cymunedau, yn enwedig yn arc deheuol Caerdydd, a sefydliadau partner. Mae Grangetown Community Concern (cyf. D1070), neu Grangetown Community Action bellach, yn sefydliad sy'n gweithio'n lleol yn ardal Grangetown yng Nghaerdydd, gan gynhyrchu papur newydd, cefnogi prosiectau ac ymgyrchoedd a threfnu'r Carnifal. Mae’r cofnodion yn cynnwys ffeilio cyffredinol ar faterion lleol.

Ymhlith yr eitemau i dynnu sylw atynt mewn casgliadau mwy eraill mae copïau o 'Dal Mar', cylchlythyr cymunedol Somali De Cymru (cyf. D800/1/4), rhaglenni o ddigwyddiadau yng Ngŵyl Gelfyddydau'r Gymanwlad Caerdydd 1965 (cyf. DX446/67) a rhaglen ar gyfer Carnifal Butetown 1983 (cyf. D1789).

*Papurau ystâd, teulu a phersonol*

Mae cyfraniad llawer o deuluoedd bonedd Cymru at y fasnach gaethweision drawsatlantig wedi'i gofnodi'n eang, yn enwedig gan Chris Evans yn *Slave Wales: The Welsh and Atlantic Slavery 1660-1850* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010).

<u>Papurau'r Teulu Mathew o St Kew, Cernyw, ac Ynysoedd y Caribî (cyf. DMW)</u>
Y prif gasgliad yn Archifau Morgannwg sy'n dangos tystiolaeth o'r cysylltiadau hyn yw casgliad y Teulu Mathew o St Kew, Cernyw, ac Ynysoedd y Caribî, disgynyddion y Teulu Mathew o Landaf a Radur.

Mae cofnodion y Teulu Mathew yn ymwneud yn uniongyrchol â chyfranogiad y teulu yn y fasnach siwgr a'r fasnach gaethweision, gan gynnwys eu perchnogaeth o blanhigfeydd a chaethweision ar ynysoedd St Christopher (St Kitts), St Martin ac Antigua. Gwasanaethodd Abednego Mathew (bedyddiwyd 1633) yn y fyddin a daeth yn Llywodraethwr St Kitts. Roedd gan ei dri mab i gyd rôl yn llywodraethu St Kitts, a daeth ei fab canol, William, yn Gapten-Gadfridog a Phen-Lywodraethwr Ynysoedd Leeward ac roedd yn perthyn trwy briodas i Is-Gadfridog Ynys Nevis. Mae ei blant hefyd yn rhan amlwg o'r casgliad.

Mae'r eitemau o bwys yn y casgliad yn cynnwys ewyllysiau, gwerthusiadau, prisiadau a stocrestrau, a chynlluniau ystadau planhigfeydd.




*Detholiad o gynllun planhigfa Abednego Mathew yn St. George Basseterre, St. Christopher, 1800, gan gynnwys 'Negro House' (cyf. DMW/305)*

O ddiddordeb arbennig mae'r cofnod o bryniant Daniel Mathews o ystâd blanhigfa yn Tobago a'r cyfrifon blynyddol cysylltiedig. Ochr yn ochr â'r pryniannau arferol o fwyd,

yr eitemau a’r llafur a oedd yn ofynnol i redeg planhigfa Byd Newydd yn effeithlon, ac wedi'u gosod ymhlith bric-a-brac a manylion bywyd bob dydd, mae’r enwau (a roddwyd gan berchnogion caethweision), rolau a phrisiau Affricanwyr caeth a'u disgynyddion.

Gellir darllen canfyddiadau'r ymchwilydd Michael Jonas, a archwiliodd bapurau’r Teulu Matthew wrth baratoi'r canllaw hwn, yn llawn yn Atodiad II.

Mae sawl casgliad o bapurau personol yn cael eu cadw yn Archifau Morgannwg. Mae un casgliad o'r fath yn cynnwys papurau morwr Louis Henri Elias Verloppe (cyf. D877). Ganwyd Louis Verloppe ym Mauritius ym 1894 a bu farw yng Nghaerdydd ym 1987. Gwasanaethodd yn llynges fasnachol Prydain. Ei gyfeiriad yng Nghaerdydd oedd 197 Stryd Bute, a bu farw yn Ysbyty Hamadryad. Doedd dim modd olrhain unrhyw berthnasau ac felly daeth ei bapurau i Archifau Morgannwg. Maent yn cynnwys ei lyfrau cofnod morwr.


3 4 CRI.

SEAMAN'S RECORD BOOK AND CERTIFICATES OF DISCHARGE

Official Replacement In continuation of Dis A No. R209471

National Insurance Number: AR/14/26/53/B.

Union or Society — Name ... No. ...

Income Tax Code Number and Date: -S- 4/12/50

Pension Fund and Registered No. ...

DECLARATION.
I DECLARE (i) that the person to whom this Discharge Book relates has satisfied me that he (she) is a seaman and (ii) that the photograph affixed bearing my official stamp is a true likeness of that person, that the signature within is his (her) true signature, that he (she) possesses the physical characteristics entered within and has stated to me the date and place of his (her) birth as entered within.

Signature of Supt. at Mercantile Marine Office

Date

Photograph of Holder — R209471

M.M.O. Embossing Stamp

NAME OF SEAMAN.
Surname (in Block Letters): VERLOPPE
Christian Names (in full): Louis, Henri, Elias

Date and Place of Birth: 6/9/1894 MAURITIUS

Nationality: Cert of nationality & Identity no 104 British Subject

| Height | Colour of Eyes | Colour of Hair | Complexion |
|---|---|---|---|
| 5 5 | BROWN | BLACK | SWARTHY |

Tattoo or other Distinguishing Marks: NONE

Grade Number and Date of Issue of Certificates of Competency Held

B.S.I.C. Serial No. BS 196439

Signature of Seaman

*Papurau Louis Henri Elias Verloppe, 1939-1987, Llyfr cofnod morwr (cyf. D877)*

*Trosedd a Chosb*

Anaml iawn y cofnodir pobl weithiol gyffredin yn y cofnod ysgrifenedig swyddogol. Un eithriad nodedig yw pan fyddai pobl yn gwrthdaro ag awdurdod. Felly mae cofnodion trosedd a chosb - rhai'r heddlu, llysoedd a charchardai - yn ffynhonnell ffrwythlon ar gyfer olrhain straeon unigolion, boed y tramgwyddwyr neu'r dioddefwyr, neu'r tystion i'w gweithredoedd. Gall y cofnodion hyn ein harwain at ffynonellau eraill, megis ffurflenni'r cyfrifiad a chyfeirlyfrau masnach, gan ein helpu i ddysgu mwy am fywydau unigolion.

<u>Cofnodion yr heddlu</u>

Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofnodion Cwnstabliaeth Morgannwg a lluoedd y fwrdeistref a sefydlwyd yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful.

Gellir rhannu cofnodion o fewn y casgliadau hyn yn ddwy adran; y rhai sy'n ymwneud â gweinyddiaeth yr heddluoedd, a'r rhai a gynhyrchir yn ystod gwaith plismona.

Bydd y cofnodion a gynhyrchir yn ystod gwaith plismona yn ymwneud yn uniongyrchol ag unigolion yr ymchwiliwyd iddynt, a arestiwyd ac a reoleiddiwyd gan yr heddlu. Mae'r cyfresi o nod ar gyfer pob heddlu yn cynnwys cofrestrau troseddau a llyfrau cyhuddiadau. Ymhlith cofnodion Heddlu Bwrdeistref Caerdydd mae cofrestri olion bysedd a ffotograffig (cyf. DCONC/3), llyfrau cwest (cyf. DCONC/4), llyfrau toriadau newyddion (cyf. DCONC/5) a chofnodion trwyddedu (DCONC/7) gyda'r rhai ar gyfer tai llety, 1909-1964, o ddiddordeb arbennig. Ceir nifer esiampl o'r rhain yn Atodiad I.

Roedd lluoedd yr heddlu'n cael eu goruchwylio gan Gydbwyllgor Sefydlog Cyngor Sir Morgannwg a chan y Pwyllgorau Gwylio a sefydlwyd ym Mwrdeistrefi Caerdydd a Merthyr Tudful. Bydd cofnodion ac adroddiadau i'r pwyllgorau hyn yn manylu ar wybodaeth ystadegol am batrymau troseddau, agweddau tuag at blismona, ac ymatebion i ddigwyddiadau mawr.



Watch Committee,
9th July 1919.

Colour Riots.

I beg to submit a report upon the racial riots which commenced in Cardiff on the night of the 11th June 1919 and had their origin in an incident which happened at the East Canal Wharf near Custom House Street about 10-0pm.

At this time a brake containing a number of coloured men and white women, apparently returning from an excursion, was proceeding along the Wharf towards Canal Parade. The vehicle and its occupants had attracted a mixed crowd and when it reached Canal Parade Bridge the coloured men remained on the southern side and the whites on the northern side and both sections began expressing themselves in hostile terms.

*Detholiad o Adroddiad y Prif-Gwnstabl ar Derfysg Hil Caerdydd, Heddlu Bwrdeistref Caerdydd, Adroddiadau'r Prif-Gwnstabl i'r Pwyllgor Gwylio, 1918-1921 (cyf. DCONC/1/6/1)*

Ym 1969 unwyd y lluoedd hyn, ynghyd â bwrdeistrefi Castell-nedd ac Abertawe (cofnodion a gedwir yng Ngwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg), i ffurfio Heddlu De Cymru. Mae cyfresi tebyg i'r rhai a ganfuwyd yn bodoli yng nghofnodion

y lluoedd rhagflaenol.  Yn ogystal, bydd cofnodion cyflogaeth yn nodedig.   Mae'r casgliad yn cynnwys cyfres o gofnodion cofrestru ymfudwyr sy'n dyddio o'r 1940au-1990au (cyfeirnod DSWP/5), dogfennau yn ymwneud â phrotestiadau gwrth-apartheid yn Abertawe ym 1969-1970 (cyf. DSWP/24), ynghyd â ffotograffau o brotestiadau gwrth-apartheid a phrotestiadau yn erbyn cyfranogiad tîm rygbi De Affrica mewn gemau rhyngwladol (cyf. DSWP/PH).

Crëwyd Awdurdod Heddlu De Cymru ym 1969 i oruchwylio gwaith Heddlu De Cymru, gan ymgymryd â rôl y Cydbwyllgor Sefydlog a'r Pwyllgorau Gwylio a oedd yn bodoli o'r blaen.

Mae rhagor o wybodaeth am ein cofnodion heddlu ar gael yn ein canllaw ymchwil 'Cofnodion Heddlu'.  Mae mynegeion i Gofrestrau Olion Bysedd a Ffotograffig Heddlu Bwrdeistref Caerdydd (cyfeirnod DCONC/3) ar gael i'w chwilio ar ein catalog, ac ar gael ar Ancestry ar gyfer y cyfnod 1904-1920.

Cofnodion llys

Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofnodion o'r Llys Chwarter ar gyfer Morgannwg a'r llysoedd Sesiynau Bach o fewn y Sir.  Mae cofnodion o'r llysoedd uwch yn cael eu cadw mewn mannau eraill; mae rhai'r Sesiynau Mawr yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac, ar ôl 1830, mae cofnodion y Brawdlysoedd i'w gweld yn yr Archifau Cenedlaethol.

Gellir dod o hyd i fanylion llysoedd unigol, eu hawdurdodaethau a chrynodeb o'n daliadau ar gyfer pob un yn ein canllaw ymchwil, 'Cofnodion y Llysoedd'.

Roedd y llysoedd yn delio ag achosion troseddol, ond roedd ganddynt rôl weinyddol hefyd, yn enwedig mewn perthynas â thrwyddedu, gan gynnwys tafarndai, clybiau a lleoliadau cerddoriaeth, tai preswyl ac ati.

Gellir defnyddio cofnodion llys ar y cyd ag adroddiadau papur newydd a chofnodion yr heddlu i greu darlun o achosion unigol.  Ymhlith y cyfresi i'w nodi ar gyfer ein holl lysoedd mae cofrestrau, llyfrau cofnodion, calendrau carcharorion a chofnodion trwyddedu.

Ceir nifer esiampl o'n cofnodion llys yn Atodiad I.

Mae calendrau carcharorion ar gyfer y cyfnod 1850-1920 wedi eu digideiddio ac maent ar gael i'w chwilio ar Ancestry.

Cofnodion carchar

Cyn Deddf Carchardai 1877 roedd y cyfrifoldeb am redeg Carchardai Sirol yn eistedd gyda'r Llys Chwarter.  Gellir dod o hyd i gofnodion yn ymwneud â Charchar

Caerdydd ac Abertawe ymhlith y cofnodion llys cyn 1877.  Ynghyd â chalendrau carcharorion y cyfeirir atynt uchod mae llyfrau cosb (cyf. Q/G/P).

Ar ôl 1877 gellir dod o hyd i gofnodion o fewn y casgliadau carchardai.  Mae'r rhain yn cynnwys calendrau o garcharorion (ref. DHMP/5/1), cofnodion carcharorion, gan gynnwys cofrestrau (ref. DHMP/9) a chofnodion y Swyddog Meddygol (cyfeirnod DHMP/2).

*Llywodraeth leol a gwleidyddiaeth*

Fel gwasanaeth archifau awdurdod lleol, cofnodion llywodraeth leol sy'n ffurfio'r casgliadau craidd yn Archifau Morgannwg.  Mae'r cofnodion yn cynnwys manylion unigolion a wasanaethodd mewn swydd etholedig neu a weithiodd i'r awdurdodau, cofnodion yn ymwneud ag unigolion a ddefnyddiodd y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr awdurdodau, a gwybodaeth am bolisïau a phenderfyniadau awdurdodau lleol.

Bydd datganiadau derbyn swydd, blwyddlyfrau a rhaglenni digwyddiadau yn cofnodi gwaith aelodau awdurdodau lleol.  Cedwir rhaglen ar gyfer y cinio maerol a gynhaliwyd i ddathlu ethol y Cynghorydd Hinds yn Faer Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg, gan ddod yn faer Du cyntaf Cymru (cyf. D87).  Ei chwaer, Elvira Gwenllian Hinds, oedd cynghorydd benywaidd Du cyntaf Cymru.  Mae blwyddlyfrau Cyngor Dinas Caerdydd (cyf. DCC/C/12) yn cofnodi ethol Gaynor Legall ym 1983 fel y Cynghorydd cyntaf dros Ward Butetown.

Gellir defnyddio cynlluniau rheoliadau adeiladu nid yn unig i olrhain adeiladau nodedig, ond hefyd y bobl a wnaeth eu comisiynu, dylunio ac adeiladu. Yn sgil ehangu'r diwydiant glo yn y 19eg ganrif, gwelwyd poblogaeth y Rhondda yn tyfu'n sylweddol. Roedd angen meddygon, a Dr Montague Duncan Makuna a Dr Kristnalal Datta oedd dau o'r cyntaf i gyrraedd o India i ddarparu gofal iechyd yn y cymunedau newydd hyn. Mae cynlluniau yng nghofnodion Cyngor Dosbarth Trefol y Rhondda yn cynnig newidiadau arfaethedig i adeiladau meddygol yn Nhrealaw ar gyfer Dr Makuna (cyf. UDR/S/2/3907) ac ychwanegu tŷ gwydr yn Ysbyty'r Gweithwyr yng Nglynrhedynog ar gyfer Dr Datta (cyf. UDR/S/2/5441).  Mae cynlluniau rheoliadau adeiladu Bwrdeistref Caerdydd yn cynnwys y rhai ar gyfer y mosg pwrpasol cyntaf yng Nghymru yn Peel Street, Butetown, ym 1938 (cyfeirnod BC/S/1/33198).




*Cyngor Bwrdeistref Trefol y Rhondda, Cynlluniau Rheoliadau Adeiladu, Newidiadau arfaethedig i 203 Brithweunydd Road, Trealaw ar gyfer Dr. Makuna, 12 Rhagfyr 1902 (cyf. UDR/S/2/3907)*

Roedd awdurdodau lleol hefyd yn delio â thrwyddedu, ynghyd â'r llysoedd a'r heddlu. Mae gwaith yr ymchwilydd Renee Eshel ar ein cofnodion awdurdod lleol yn tynnu sylw at ffeil yn ymwneud ag erlyniadau llys yr heddlu a ddygwyd gan Gyngor Bwrdeistref y Barri (cyfeirnod BB/C/12/1-40), 1922-1924. Mae'n cynnwys cais am wŷs yn erbyn Abby Farrah, alias Alli Farrah, a Hadji Mohamed Ismael am osod llety i forwyr yn Stryd Thompson yn y Barri heb y drwydded angenrheidiol.

Gellir defnyddio cofnodion cyfarfodydd i ddilyn rôl a gwaith cynghorwyr penodol, i olrhain datblygiad polisi, ynghyd â gwaith beunyddiol yr awdurdodau. Mae cofnodion Pwyllgor Glanweithdra Iechyd a Phorthladd Bwrdeistref Caerdydd (BC/C/6/48), er enghraifft, yn adrodd ar waith yr Arolygydd Tai Llety Morwyr. Ym mis Ionawr 1914 ceir rhestr o genhedloedd tai llety trwyddedig ym 1913, ynghyd ag enwau ceidwaid trwyddedig tai llety. Dilynir hyn gan restr o drwyddedau a roddwyd ar gyfer y flwyddyn 1914.



90

Details of Nationality, etc., of Seamen's Lodging Houses (see Report Book).—Total licenced, 155. The nationalities are :—Arab, Austrian, American and West Indian, Armenian and Portuguese, British, British and Scandinavian ; British, German and Scandinavian ; British and Spanish, British and Swiss ; British, Swedish and Norwegian ; British, American and West Indian ; British and Norwegian ; British, Dutch and German ; British, Danish and Scandinavian ; Chinese ; Danish, Norwegian and Scandinavian ; Dutch, Greek, German, Italian, Maltese ; Portuguese and West Indian ; Portuguese ; Russian and Finnish ; Russian, Finnish and Scandinavian ; Samien, Somalien, Spanish, Scandinavian and Finnish, Scandinavian, Spanish and Italian, Turkish, West Indian, West African, West African and West Indian All nationalities.

The following Licensed Keepers of Seamen's

*Cofnodion Bwrdeistref Caerdydd, Llyfr Cofnodion, Tachwedd 1913-Mai 1914 (cyf. BC/C/6/48)*

Dechreuwyd sefydlu mynwentydd trefol yn ystod y 1850au, wrth i'r boblogaeth dyfu ac wrth i fynwentydd eglwysi a chapeli presennol lenwi. Gellir defnyddio cofnodion o fynwentydd trefol a weithredir gan awdurdodau lleol i olrhain claddedigaethau unigolion. Mae cofrestrau claddu ar gyfer y rhan fwyaf o fynwentydd trefol yn dal i fod gyda'r awdurdodau lleol perthnasol, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein canllaw ymchwil i 'Fynwentydd Trefol'. Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofrestrau claddu ar gyfer Mynwent Cathays yng Nghaerdydd, a agorodd ym 1859 (cyf. BUBC/1). Ar 15 Mai 1894 gwelwn gofnod claddu [Banon] Gulamsab, a enwyd mewn papurau newydd ar y pryd fel Bawa Golam Sahib. Fe'i rhestrir fel morwr a fu farw ar y llong gleifion. Gwelir llofnod y gweinidog gweinyddu, Sheikh Abderahman Sar Niger Ebn Ali, wedi'i ysgrifennu'n Arabeg.




*Cofnodion Bwrdd Claddu Caerdydd, Cofrestr Claddedigaethau (Mynwent Cathays), Caerdydd y Santes Fair a Sant Dyfrig, 1 Ionawr 1890-25 Medi 1901 (cyf. BUBC/1/2/3)*

Gellir dod o hyd i gofnodion protest drwy'r casgliad. Mae'r rhain yn cynnwys papurau fel Cardiff Residents Against the Barrage (D350), a oedd yn canolbwyntio ar effaith adeiladu'r morglawdd ar gymunedau yn ne Caerdydd yn benodol, ac eitemau unigol fel poster ar gyfer protest Gwrth-Apartheid (D1500/1/3).

*Addysg*

Mae cofnodion ar bolisi addysg yn cael eu cadw yng nghasgliadau'r awdurdodau lleol perthnasol. Mae cofnodion o'r ysgolion eu hunain wedi'u catalogio ar wahân a gallant fod yn arbennig o ffrwythlon. O 1870 ymlaen, roedd yn ofynnol i bob plentyn fynd i'r ysgol ac felly mae cofnodion ysgolion yn adlewyrchu cymunedau cyfan.

Mae manylion plant sy'n mynychu ysgolion wedi'u cofnodi mewn cofrestrau derbyn. Mae gwybodaeth sylfaenol fel arfer yn cynnwys enw'r plentyn, dyddiad geni, cyfeiriad a gwybodaeth am rieni/gwarcheidwaid. Weithiau cofnodir mwy o fanylion ar faterion fel ysgolion blaenorol a fynychwyd, perfformiad academaidd, bywyd cartref, iechyd, a'u cyrchfan wrth adael yr ysgol (cyflogaeth, addysg bellach ac ati). Mae cofrestrau derbyn ar gyfer 11 o ysgolion Morgannwg wedi'u digideiddio ac maent ar gael i'w chwilio ar Find My Past.

Daw’r cofnod yma o gofrestr derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Grangetown yng Nghaerdydd. Mae’n dangos derbyn Sidney Lima ym 1917. Roedd yn fab i Frederick Lima, morwr o Cape Verde, a Maria Silver, o dras Cymraeg-Cape-Verde, gyda’i thad yn dod o Cape Verde.



| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1015 | " | " | " | Lima Sidney | Frederick | 25 Earl St | " | 10 | 1 | 10 |

*Ysgol Gynradd Grangetown, Cofrestr Derbyn, Bechgyn, 1910-1927 (cyf. EC41/2/6)*

Mae llyfrau log ysgol yn ddyddiaduron dyddiol a gedwir gan y pennaeth. Mae pob un yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am bresenoldeb, staffio, gwyliau ac ati. Ond mae llawer yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol sy'n manylu ar fywyd yng nghymuned yr ysgol ac yn sôn am ddigwyddiadau mawr sy'n effeithio ar fywyd ysgol.

Yn y llyfr log ar gyfer Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Bute Terrace, Caerdydd (cyf. EC23/7) mae’r prifathro yn nodi *…the returns on the question of teaching Welsh disclose the fact that [many] of the parents desire it. Considering the seafaring population of this district, that is a surprise.*

Ar gyfer rhai ysgolion, mae cofnodion ychwanegol wedi'u hadneuo. Gall y rhain gynnwys cylchgronau ysgol, ffotograffau, meysydd llafur, toriadau newyddion, a rhaglenni a phapurau sy'n ymwneud â gweithgareddau ysgol fel gemau chwaraeon, perfformiadau theatrig ac ati. Mae cofnodion Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd (cyf. ESEC75) yn arbennig o nodedig. Ffurfiwyd Ysgol Uwchradd Fitzalan ym 1968 o Ysgol Uwchradd Dechnegol i Fechgyn Fitzalan, a nifer o ysgolion eraill. Roedd dalgylch yr ysgol yn cynnwys cymunedau amrywiol de Caerdydd - Butetown, Grangetown a Glan-yr-afon. Mae cofnodion yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon, gyda nifer o gylchlythyrau i'w gweld wedi’u cyfieithu i sawl iaith Affricanaidd ac Asiaidd, ac erthyglau yn trafod profiadau disgyblion o symud i wlad newydd.

# ETHNIC ASSEMBLIES

The pupils of Fitzalan belong to a variety of religions. The majority are Christian but there are substantial numbers of Muslims, Hindus and Sikhs. These latter pupils don't attend the school Christian assembly, but have their own assemblies for which the pupils take responsibility. In the following passages pupils describe the main tenets of their religion.

## I AM A MUSLIM.

For about fifteen minutes during Assembly times the Muslim girls listen to the teaching of Islam (the Muslim religion). Two girls from Form 4 act as teachers and prepare the work and the readings. The girls are divided into two groups. They study the Pillars of Islam and the Holy Koran. To be a Muslim, you must observe the five Pillars of Islam.

The first of the five Pillars is the creed, which states that there is no God but Allah, and that Mohammed is His Messenger. Secondly comes prayer. A Muslim is required to pray five times a day, facing the direction of Mecca.

The third Pillar of Islam is Zakat, or almsgiving, which means being charitable toward the poor and giving money to charity. The fourth Pillar is to observe the Holy Month of Ramadan. During this time, we are not allowed to eat or drink in the hours of daylight.

The fifth Pillar is Haj, or pilgrimage. Every Muslim is expected to make a pilgrimage to Mecca during his or her lifetime if at all possible.

You may wonder why our holidays are different from yours as Christians. We celebrate a time of rejoicing at the end of Ramadan in the Feat of Eid-ul-Fitr. We also have other special holy days. Another special feature of our religion is that we are not allowed to eat pork or anything made from pork.

*Cofnodion Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd, Cylchgrawn Ysgol, 1983, (cyf. ESEC75/4)*

I am one of the new residents of Riverside, I moved there with my family in 1977. I was born in Bangladesh. I came to Britain, to Ipswich, when I was six months old. I went to school in Ipswich and learned to speak English. We moved back to Bangladesh for a year, but by then my older brothers had found work in restaurants in Cardiff so we came to Cardiff to live.

At first my family lived in Grangetown so I went to Ninian Park Primary school, and although we moved to Riverside later, I still went to Ninian Park. We live in quite a small modern house, but it is big enough for us, myself, my younger brother, my sister and my parents.

Riverside has changed a lot even since I have lived there. Some of the empty houses in Ninian Park Road and Tudor Street have been demolished and new buildings erected in their place. Many old houses have been repaired and improved so that families have moved into the area. In this district different races live together as a community. It is a place of hustle and bustle, with traffic passing through, into and out of the City Centre.

Riverside has its own Community Centre where residents are invited to attend meetings and join in leisure activities. The most noticeable of the ethnic minorities which have made their homes there are the Asians and the Chinese.

People living outside Riverside think it is where all the Asians live, and where there are old and half ruined houses, a dull, dreary place. But to us who are part of it, it is a lively, happy and peacful community.

*Cofnodion Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd, Cylchgrawn Ysgol, 1984 (cyf. ESEC75/4)*

*Iechyd a lles*

Cyn dyfodiad y Wladwriaeth Les yng nghanol yr 20fed ganrif, y prif ddatrysiad i'r rhai yr oedd angen cymorth meddygol neu ariannol arnynt oedd Undeb Deddf y Tlodion. Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofnodion pedair undeb Deddf y Tlodion: Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bont-faen, Caerdydd, Merthyr Tudful a Phontypridd. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am gwmpas y casgliadau hyn yn ein canllaw ymchwil 'Cofnodion Cymorth Plwy'.

Mae cyfresi o bwys yn cynnwys cofrestrau derbyn a rhyddhau a chofrestrau credo ar gyfer y tlotai a chartrefi plant a weinyddwyd gan bob Undeb, ynghyd â rhestrau o

dlodion sy'n cofnodi pob unigolyn o fewn sefydliadau'r Undeb ynghyd â'r rhai a geisiai gymorth y tu allan i'r tloty.

Mae'r dyfyniad hwn o'r rhestrau tlodion ar gyfer Undeb Deddf y Tlodion Caerdydd ar gyfer 1912 yn dangos bod Violet a Fatima Mohammed wedi derbyn 9 diwrnod o gymorth yn y tloty.


9

List of Indoor Paupers—Cardiff Workhouse (continued). Lady-Day, 1912

| Names of Paupers. | No. of days Maintenance. |
|---|---|
| CARDIFF (continued). | |
| Montgomery, Mary | 28 |
| Mahommed, Violet | 9 |
| Mahommed, Fatima | 9 |
| Melford, Albert | 55 |

*Cofnodion Undeb Deddf y Tlodion Caerdydd, Crynodeb, rhestr tlodion a blwyddlyfr, Hydref 1908-Mawrth 1912 (cyf. UC/45/12)*

Mae cofnodion o'n Hundebau Deddf y Tlodion sy'n dyddio o cyn 1920, ac sy'n ymwneud ag unigolion, wedi'u digideiddio ac maent ar gael i'w chwilio ar Ancestry.

O ganol yr 20fed ganrif ymlaen, daeth darpariaeth les o dan awdurdodaeth awdurdodau lleol, a chafodd gofal iechyd ei ddarparu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Cedwir cofnodion o sawl ysbyty yn Archifau Morgannwg, y rhan fwyaf wedi'u catalogio gyda'r rhagddodiad DH, ynghyd â chofnodion Awdurdodau Iechyd a Byrddau Iechyd. Yn ogystal â deunydd sy'n ymwneud â gweinyddu'r ysbytai eu hunain, gall cofnodion gynnwys cofnodion cleifion a staff.

Mae cyfres lawn iawn o nodiadau achos cleifion wedi goroesi ar gyfer Gwallgofdy Morgannwg (cyf. DHGL) ar gyfer y cyfnod 1864-1955. Roedd y Gwallgofdy yn darparu gofal i gleifion o bob rhan o hen sir Morgannwg. Mae llawer o'r nodiadau achos yn cynnwys ffotograffau o'r cleifion. Mae yna fynegeion y gellir eu chwilio yn ôl enw cleifion, gyda'r rhai ar gyfer y cyfnod hyd at 1920 ar gael ar-lein trwy Ancestry. Gall adnabod unigolion Ethnig Leiafrifol o fewn y cofnodion fod yn heriol gan nad yw hil a chenedligrwydd o reidrwydd wedi'u cofnodi. Ond weithiau gall enwau awgrymu ethnigrwydd penodol, a gall cofnodion hanes teuluol eraill fel ffurflenni'r cyfrifiad a thystysgrifau marwolaeth dystiolaethu mynediad i'r ysbyty.

Ymhlith y cofnodion derbyn cleifion gwrywaidd ar gyfer Gwallgofdy Morgannwg, 1909-1949 (cyf. DHGL/11/1) ceir cofnod derbyn a thriniaeth Mohamed Ali, tanwr llong o'r Barri. Cofnodwyd ei grefydd fel 'Mohamedian' a'i genedligrwydd fel 'Malay'. Yn yr adran sy'n cofnodi cyfeiriad perthynas, rhestrwyd lletywr o'r Barri. Yn ffodus, gwellodd a chafodd ei ryddhau i ofal ei ewythr o Sophia Street, Caerdydd, 2 flynedd yn hwyrach.

Adeiladwyd Ysbyty Brenhinol Morwyr Hamadryad, Caerdydd, i nodi dathliad jiwbilî diemwnt y Frenhines Fictoria ym 1897.  Cymerodd le Long Gleifion Morwyr Hamadryad, a agorwyd ym 1866.  Gosodwyd y garreg sylfaen ar 7 Awst 1900 a chwblhawyd yr ysbyty ym mis Mai 1905.  Mae'r cofnodion cynnar a gedwir yn yr Archifau yn weinyddol eu natur (cyf. BC/HAM).  Mae cofnodion cleifion yn cael eu cadw o ganol yr 20fed ganrif (cyf. DHHA).  Mae llyfr adneuon cleifion (cyf. D1204), sy'n dyddio o 1903-1952, yn cynnwys enwau cleifion ac yn manylu ar yr eitemau gwerthfawr yr oedd ganddynt wrth gael eu derbyn.  Ym mis Gorffennaf 1918 gwelwn y derbyniwyd Lun Chow, ac adneuwyd nodyn Tsieineaidd.



| DATE. | No. ON BOOK. | NAME OF PATIENT. | AMOUNT RECEIVED. | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 27. | Lun Chow. Chinese Note + | 3 | 10 | - |

*Ysbyty Morwyr Hamadryad, Caerdydd, Llyfr Adneuon Cleifion, Mai 1903-Rhagfyr 1952 (cyf. D1204)*

Sefydlwyd Sefydliad y Deillion Caerdydd ym 1865 gan Frances Batty Shand. Cafodd ei geni yn Jamaica, yn ferch i'r planhigfäwr a'r perchennog caethweision o'r Alban, John Shand a'i bartner hirdymor, Frances Brown, menyw o liw rydd. Symudodd i Gaerdydd gyda'i brawd ar farwolaeth ei thad.  Mae hanes y Sefydliad a gedwir o fewn ei gofnodion yn yr Archifau yn cynnwys gwybodaeth fywgraffyddol am Frances Batty Shand a'r teulu Shand, gan amlinellu eu cysylltiadau â'r Caribî. Crëwyd y Sefydliad gydag arian a etifeddwyd gan Frances Batty Shand gan ei chaethfeistr o dad.  Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y teulu Shand trwy chwilio'r gronfa ddata a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Astudio Etifeddiaeth Caethwasiaeth Brydeinig yng Ngholeg Prifysgol Llundain.

*Diwydiant a masnach*

Tyfodd poblogaeth Morgannwg yn sylweddol yn ystod y chwyldro diwydiannol, gyda phobl yn cael eu denu i Dde Cymru o bob cwr o'r byd i weithio mewn diwydiannau fel cloddio glo ac yn y fasnach longau a grëwyd trwy allforio glo.

<u>Casgliadau glo</u>

Mae cofnodion nifer o gwmnïau glo, ynghyd â rhai'r Bwrdd Glo Cenedlaethol a sefydlwyd ar wladoli'r diwydiant glo ymn 1947, yn cael eu cadw yn yr Archifau.  Nid ydynt yn gyflawn, yn enwedig o ran cofnodion yn ymwneud ag unigolion a gyflogwyd yn y diwydiant glo.  Mae rhestr lawn o gofnodion glofeydd sy'n enwi unigolion i'w gweld yn ein canllaw ymchwil 'Gwaed Morgannwg'.

Mae'n anodd nodi unigolion Ethnig Leiafrifol o fewn y cofnodion hyn gan mai anaml y cofnodir cenedligrwydd a hil.  Mae'r ymchwilydd Myaa Helm wedi defnyddio ffynonellau fel ffurflenni'r cyfrifiad ac adroddiadau papur newydd i nodi glowyr Ethnig Leiafrifol, gan wneud gwaith pellach ar ei chanfyddiadau yn y cofnodion a gedwir yn Archifau Morgannwg.  Gall hyn fod yn waith caled, ond gall arwain at ganlyniadau gwerth chweil.

Roedd James Edwin yn löwr o Jamaica a anwyd ym 1876.  Gan ddefnyddio cofrestrau Yswiriant Gwladol (cyf. D1411/1/2) cadarnhaodd Myya ei fod wedi'i gyflogi yn y Pyllau Glo Cenedlaethol Unedig, Rhisga, yn y Wythïen Pum Troedfedd o 1916 i o leiaf 1924.  Datgelodd y cofnodion ei gyfeiriad, gan arwain at fanylion cyfrifiad yn nodi enw ei wraig ac enwau ei blant.


THE UNITED NATIONAL COLLIERIES, LTD. Risca COLLIERIES.

NATIONAL INSURANCE ACT. Register of Five Feet Colliers

| NAME | Occupation | Half Year ending December 31st 1921 | Total Amount Deducted | Date of Leaving | REMARKS |
|---|---|---|---|---|---|
| | Brought forward ... | | | | |
| James Edwin | | | | | 7566 29 Store Rd Risca |
| Percy Sweet | | | | | 604 35 Cobden St Crosskeys |

*United National Collieries, Cofrestr Yswiriant Gwladol, Glofeydd Risca, Wythïen Pum Troedfedd, 1921-1926, Hanner blwyddyn yn diweddu 2 Gorffennaf 1921 (cyf. D1411/1/2/11)*

Gellir dod o hyd i ganfyddiadau llawn Myya yn Atodiad II.

<u>Cofnodion morwrol</u>

Mae sawl cyfres o gofnodion a gedwir yn Archifau Morgannwg yn ymwneud â'r unigolion a oedd yn gweithio yn y diwydiant llongau a oedd yn gweithredu o Ddociau Morgannwg.   Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein canllaw ymchwil 'Cofnodion Morwrol'.

O 1835 ymlaen, roedd yn ofynnol i feistri llongau ymrwymo i gytundeb gyda phob aelod o'r criw.  Roedd meistr y llong yn cadw'r ddogfen hon ar fwrdd y llong, yn ei chwblhau, ac yn ei rhoi wedyn i'r Cofrestrydd Cyffredinol Llongau a Morwyr ar ddiwedd y fordaith.   Mae Archifau Morgannwg yn dal y cytundebau criw hyn ar gyfer llongau a gofrestrwyd ym Mhorthladd Caerdydd yn ystod y blynyddoedd 1863-1913 (cyf. DCA).  Maen nhw wedi cael eu catalogio yn ôl enw a rhif y llong, ac mae gwirfoddolwyr wrthi'n mynegeio enwau'r morwyr unigol sydd wedi'u rhestru yn y cytundebau.   Mae'r gwaith hwn ar gael ar y wefan CLIP: Crew List Index Project.

Daw rhai cytundebau criw gyda gwybodaeth ychwanegol - llythyrau at neu gan gapten y llong yn aml.  Mewn un cytundeb criw ar gyfer mordaith y Groeswen ym 1912-1913 gwelwn lythyr gan 7 o'r tanwyr ar fwrdd y llong – J Fordy, J Coles, J King, J Mendi, Black Thomas a J Brown.  Wedi'i gyfeirio at Lywodraethwr y Bwrdd Masnach, mae'n gŵyn ynglŷn â'r bwyd annigonol a roddwyd iddynt.  Maent yn

dweud eu bod wedi cwyno wrth y Capten, a'u bod wedi cael gwybod mewn ymateb *...we ought not to grumble as it is enough for Black Men*... Maen nhw'n nodi sut y gwnaeth Stiward y llong wedyn eu cicio am gwyno. Mae llythyr ynghlwm gan Undeb Cenedlaethol y Morwyr a'r Tanwyr yn eu cynghori i ofyn am iawndal gan y Capten.



S.S. Groeswen.
Dunston on Tyne
Feb 5th 1912

Superintendent
B.O.T. Dunston on Tyne

We the Undersigned do hereby declare, that we have not been treated as we should during the voyage of the above ship.

There are 7 firemen on board and we have not had enough food except for about 2 men.

When we have complained to the Captain he has said that we ought not to grumble as it is enough for Black Men and the Steward has also kicked me Fordy because I complained,

We hereby lodge a protest to see if we cannot get any compensation.

We beg to remain, your obedient servants,
J. Fordy. J. Coles. J. King. J. Mendi
Black Thomas. J. Brown.

*Cytundebau Criw a Llyfrau Log Swyddogol Porthladd Caerdydd, cytundeb criw ar gyfer y Groeswen, 1913 (cyf. DCA/1913/113533)*

Mae Ymholiadau Llongau'r Bwrdd Masnach yn cofnodi ymchwiliadau i golledion longau. Cynhaliwyd ymchwiliadau yn y man mwyaf cyfleus i'r tystion ei fynychu, nid porthladd cofrestru'r llong. Felly nid yw'r rhai a gedwir yng Nghaerdydd, ac a fanylir yn y cofnodion yn Archifau Morgannwg, o reidrwydd yn ymwneud â llongau a gofrestrwyd yng Nghaerdydd. Mae ffeiliau ymchwiliadau yn dyddio o 1875-1935 (cyf. CL/PSCBO/BT) ac maent yn cynnwys y papurau a gasglwyd ar gyfer yr ymchwiliad, gan gynnwys deponiadau tystion.

Gosodwyd carreg sylfaen Cartref Morwyr Caerdydd ar Stryd Stuart, Caerdydd, ar 14 Gorffennaf 1853. Roedd yn darparu llety i 150 o forwyr. Ychydig iawn o gofnodion sydd wedi goroesi ar gyfer Cartref y Morwyr, ar wahân i un cyfriflyfr gan Henry

McAusland, llywodraethwr y Cartref, ar gyfer y cyfnod 1862-1867 (cyf. D493). Mae'n cofnodi enwau morwyr sy'n aros yno, ond dim manylion eraill.

Nodir papurau morwyr unigol uchod o dan bapurau personol. Mae llawer hefyd i'w gweld ymhlith Cofnodion Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown, y cyfeirir atynt uchod hefyd (cyf. D1856).

<u>Cofnodion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (DCBDC)</u>

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1987 i ailddatblygu Dociau Caerdydd a'r ardal gyfagos, gan greu Bae Caerdydd. Yn un o 16 corfforaeth datblygu trefol a sefydlwyd ledled y DU rhwng 1981 a 2006, dyma'r unig un a grëwyd yng Nghymru. Mae'r farn bresennol ar y Gorfforaeth wedi'i pholareiddio. Mae rhai'n ei ystyried y mwyaf llwyddiannus o'r holl brosiectau datblygu ac adfywio yn y DU; i eraill mae'n drychineb cynllunio amgylcheddol a threfol. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu effaith y datblygiad ar gymuned amrywiol Dociau Caerdydd, ac yn cynnwys cofnodion ac adroddiadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau, cynlluniau corfforaethol, adroddiadau prisio, adroddiadau ymgynghorwyr, papurau sy'n ymwneud â digwyddiadau ymgysylltu cymunedol, ac archif ffotograffig fawr yn dangos y Morglawdd a gwaith y Gorfforaeth yn mynd rhagddo



*Cofnodion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, Sleidiau, Canolfan Islamaidd De Cymru, Alice Street, Butetown, Caerdydd, 1990au (cyf. DCBDC/12/2/363)*

<u>Busnesau bach</u>

Mae cyfeirlyfrau masnach ar gyfer De Cymru yn cynnwys rhestrau masnachol ar gyfer trefi a phentrefi, ynghyd â rhestrau preswyl fesul stryd ar gyfer canolfannau poblogaeth mawr. Maent yn caniatáu i rywun adnabod busnesau bach a'u perchnogion, gan gynnwys siopau, caffis a bwytai. Mae Archifau Morgannwg yn dal detholiad o gyfeirlyfrau masnach ar gyfer De Cymru a Chaerdydd. Gellir dod o hyd i

gyfeirlyfrau ychwanegol mewn llyfrgelloedd lleol ac mae sawl un ar gael i'w chwilio ar-lein trwy wefan Historical Directories Prifysgol Caerlŷr.

*Crefydd*

Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofnodion plwyf ar gyfer Esgobaeth Llandaf, ynghyd â chofnodion nifer o Eglwysi Catholig, capeli anghydffurfiol ac eglwysi cenhadol. Nid ydym ar hyn o bryd yn cadw cofnodion o unrhyw grefyddau anghristnogol ar wahân i rai synagogau Caerdydd a Chymdeithas y Cyfeillion, ac un gofrestr ar gyfer y Shree Kutchi Leva Patel Samaj, Teml Hindŵaidd yng Nghaerdydd. Mae hwn yn fwlch rydym wedi'i nodi ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael ag ef.

Mae cofrestrau plwyf yn cofnodi'r bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau a ddigwyddodd mewn eglwysi plwyf. Maent yn cynnwys rhai o'r cofnodion ysgrifenedig cynharaf o bobl Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae'r cofnod yma yn nodi bedydd Joseph Potiphar yn Eglwys Sant Ioan, Caerdydd, ym 1687.




*Cardiff St. John Ecclesiastical Parish Records, Register of Baptisms, Marriages and Burials, 1669-1696 (ref. P122CW/1)*

Mae cofrestrau plwyf ar gyfer Morgannwg ar gyfer y cyfnod hyd at 1994 ar gael i'w chwilio ar Ancestry, Find My Past a gwefannau achyddol eraill.

Mae cofnodion nifer o addoldai anghydffurfiol wedi goroesi yng nghasgliad Archifau Morgannwg. Mae cofnodion Angelina Street / Welcome Mission yn nodedig (cyf. DX819). Sefydlwyd yr Angelina Street Mission ym 1906 gan Mr James Phillips o Gaerdydd, ac yn ddiweddarach roedd dan arweiniad ei ferched. Fe'i lleolwyd yn Nociau Caerdydd. Mae'r cofnodion yn cynnwys hanes y genhadaeth, gohebiaeth, toriadau newyddion a ffotograffau. Gallwch weld llun o blant mewn pasiant gwisg ffansi yn Neuadd yr Angelina Street Mission, c1920, ar glawr y canllaw yma (cyf. DX819/11).

Ymhlith ein cofnodion anghydffurfiol mae rhai dau gapel yn Nociau Caerdydd. Roedd Eglwys Bedyddwyr Bethel wedi'i lleoli'n wreiddiol ar Stryd James, cyn symud i Sgwâr Mount Stuart, ac yna Stryd Pomeroy. Mae'r cofnodion yn cynnwys llyfrau cofnodion, cofrestr o aelodau a ffotograffau. Mae'r gofrestr aelodaeth (cyf. D472/3) yn cofnodi adleoliad un aelod ar ddiwedd y 1940au a gyflwynodd ei thystysgrif bedydd o Eglwys y Bedyddwyr yn Kingston, Jamaica. Mae cofnodion Eglwys yr Annibynwyr Hannah Street (cyf. DECONG18) yn cynnwys llyfrau cofnodion, cofnodlyfrau, cofnodion yr Ysgol Sul a phapurau yn ymwneud â digwyddiadau'r eglwys. Mae chwiliad o gofnodion yr Ysgol Sul yn datgelu enwau gan gynnwys Singh a Mohamed, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cynulliad.

Sefydlwyd Cyngor Hindwiaid Cymru ym mis Tachwedd 2012 gan y chwe phrif grŵp ffydd Hindŵaidd sy'n cynrychioli'r mwyafrif o Hindwiaid sy'n byw yng Nghymru. Mae gan Archifau Morgannwg gasgliad bychan sy'n cynnwys llyfryn sy'n nodi gosod cerflun o Mahatma Gandhi ym Mae Caerdydd yn 2017 (cyf. D1505).

Roedd Cymdeithas y Cyfeillion (Y Crynwyr) yn weithgar yn yr ymgyrch dros ddiddymu'r fasnach gaethweision. Mae Archifau Morgannwg yn cadw cofnodion Cymdeithas y Cyfeillion yng Nghymru (cyf. DSF). Rhaid cael caniatâd cyn cael mynediad i'r cofnodion.

*Lluniau / gwaith celf*

Mae nifer o gasgliadau ffotograffig a gweithiau celf yr Archifau yn adlewyrchu hanes pobl a chymunedau Ethnig Leiafrifol yn ardal Morgannwg.

<u>Ffotograffau Cymunedol Dociau Caerdydd (DXGC29)</u>

Mae'r casgliad hwn yn cynnwys ffotograffau o unigolion, grwpiau teuluol a grwpiau, o gymuned dociau Caerdydd. Tynnwyd y ffotograffau rhwng 1900-1920, llawer ohonynt gan Fred Petersen, yr oedd ganddo stiwdio ffotograffiaeth ar Stryd Bute. Mae'r ffotograffau portread yn arbennig o nodedig ac yn adlewyrchu amrywiaeth cymuned Dociau Caerdydd. Mae'r ffotograffau ar gael yn ddigidol ar wefan Archifau Morgannwg.



*Ffotograffau Cymunedol Dociau Caerdydd, Portread o Samuel Benjamin Swen Sawyer, c1900-1920 (cyf. DXGC29/36)*

Dim ond nifer fach o'r bobl yn y lluniau sydd wedi cael eu hadnabod. Dyma Samuel Benjamin Swen Sawyer. Gwnaeth yr ymchwilydd Rebecca Eversley adnabod Samuel, a chadarnhaodd ei fod yn dod o deulu o forwyr Kru o Liberia a oedd yn byw yn Stryd Francis, Caerdydd. Cafodd ei lofruddio y tu allan i glwb nos, The Big Apple, yn Tiger Bay yn y 1940au. Claddwyd ef ym Mynwent Cathays.

<u>Cofnodion y Ffotograffydd Stanley Travers (DSTP)</u>
Roedd Stanley Travers yn ffotograffydd adnabyddus o Gaerdydd. Roedd ei gomisiynau'n canolbwyntio'n bennaf ar adeiladau a digwyddiadau, ac mae pobl yn ymddangos weithiau. Ymhlith y lleoliadau nodedig sydd i'w gweld yn y casgliad mae Dociau Caerdydd, ailddatblygiad Bae Caerdydd, ffatri Matsushita (National Panasonic (UK) Limited), a'r Grŵp Cynhyrchwyr Jamaicaidd yn Nociau Casnewydd.

Ymhlith casgliad o ffotograffau a gyflwynwyd gan Amgueddfa Catrawd Cymru mae un sy'n dangos criw'r SS Hopemount (DX229/5/17). Cafodd eu llong ei thorpidio a'i bombardio gan long danfor Almaenig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a chafodd aelodau'r criw eu hachub a'u cludo i Gaerdydd. Mae llun o gasgliad V C Hardacre (DXGC/24/258) yn dangos milwyr Americanaidd a leolwyd yng Nghastell Caerffili yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys GIs Du. Mae casgliad yr artist o Gaerdydd, Mary Traynor, yn cynnwys brasluniau a dyfrlliwiau o adeiladau yng Nghaerdydd a oedd mewn perygl o gael eu dymchwel yn ystod yr 1980au a'r 1990au. Wedi'i chynnwys mae golygfa o'r Ganolfan Islamaidd ar Stryd Maria, Butetown, Caerdydd (D1093/2/39).



*Casgliad Mary Traynor o Gaerdydd, Canolfan Islamaidd, Maria Street, Caerdydd, 20 Chwefror 1988 (cyf. D1093/2/39)*

*Adnoddau Hanes Teulu*

Mae nifer helaeth o ffynonellau sy'n rhestru unigolion yn ôl eu henwau wedi cael eu digideiddio, eu mynegeio a'u rhoi ar gael ar wefannau hanes teuluol blaenllaw, gan gynnwys Ancestry a Find My Past.  Gwasanaethau tanysgrifio yw'r rhain, ond mae mynediad am ddim ar gael ar hyn o bryd mewn gwasanaethau archifau a llyfrgelloedd ledled Cymru.

Mae rhai cyfresi o gofnodion a gedwir yng nghasgliad Archifau Morgannwg ar gael ar-lein trwy Ancestry a Find My Past.  Lle mai dyma'r achos, maent wedi'i nodi yn yr adran berthnasol uchod.

**Ffynonellau a gedwir mewn mannau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Morgannwg**

Dyma restr fer o ffynonellau a gedwir mewn ystorfeydd heblaw Archifau Morgannwg y gellir eu defnyddio i gefnogi ymchwil i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig ym Morgannwg.

*Llyfrgell Dreftadaeth Cathays*
Mae'r casgliad Astudiaethau Lleol yn Llyfrgell Gangen a Threftadaeth Cathays yn cynnwys deunydd sy'n ymwneud â hanes Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghaerdydd a'r ardal ehangach. Mae adnoddau helaeth ar gael ar gyfer Tiger Bay – cymuned aml-ethnig hynaf Cymru, deunyddiau ar gyfer y Gymuned Yemenïaidd, y Terfysgoedd Hil ym 1919, erthyglau papur newydd gwreiddiol, a ffeiliau bywgraffyddol ar ffigyrau nodedig.

*Llyfrgelloedd lleol*
Mae gan wasanaethau llyfrgell ym mhob un o'n hawdurdodau lleol gasgliadau astudiaethau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys ôl-rifynnau papurau newydd lleol, ystod ehangach o gyfeirlyfrau masnach na'r rhai a gedwir yn Archifau Morgannwg, a ffotograffau o'r ardal a'r gymuned leol. Y prif lyfrgelloedd astudiaethau lleol yw:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Llyfrgell Y Llynfi, Maesteg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Llyfrgell Bargod
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Llyfrgelloedd Aberdâr, Pontypridd a Threorci
Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg – Llyfrgell y Barri

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar wefannau'r awdurdodau lleol perthnasol.

*Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd*

Mae gan Gasgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd amrywiaeth o gasgliadau archif a llyfrau prin, ac maent ar agor i bawb drwy apwyntiad.

Mae ffynonellau o ddiddordeb yn cynnwys y Gair Rhydd ac archif papurau newydd myfyrwyr, sy'n manylu ar weithgareddau amrywiaeth o gymdeithasau a phrotestiadau myfyrwyr ac yn cynnig cipolwg ar fywyd myfyrwyr o ddiwedd y 1970au ymlaen. Bydd Archifau Sefydliadol y Brifysgol yn cynnwys ffotograffau, cofnodion cymdeithas a chofnodion myfyrwyr. Cofiwch, mewn rhai achosion, y bydd dogfennau Archif Sefydliadol yn destun cyfyngiadau, er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol unigolion yn unol â deddfau diogelu data.

Yr eitem fwyaf nodedig ar y pwnc profiadau byw pobl o leiafrifoedd ethnig yw hunangofiant prin iawn gan William Hall, Americanwr Affricanaidd a ymgartrefodd yng Nghaerdydd, ar ôl dianc rhag caethwasiaeth yn America: "Slavery in the United States of America : personal narrative of the sufferings and escape of William A. Hall,

fugitive slave, now a resident in the town of Cardiff”. Wedi'i gyhoeddi ym 1862, dyma'r enghraifft olaf sydd wedi goroesi yn y DU, ac mae'n hynod nodedig am fod yn naratif a hunan-awdurwyd gan ddyn Du a oedd yn byw yng Nghymru'r 1800au. Gan fod y pamffled gwreiddiol yn fregus iawn, mae fersiwn ar-lein ar gael i’w darllen, ei lawrlwytho a'i hailddefnyddio gyda phriodoliad am ddim (copi digidol o Naratif William Hall). Oherwydd pwnc y ddogfen, dylai darllenwyr fod yn ymwybodol ei bod yn cynnwys darluniau o drais eithafol ac iaith hiliol.

*Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru dros 6 miliwn o lyfrau, dros 40,000 o lawysgrifau a dros 1.5 miliwn o fapiau. Mae'r llyfrgell hefyd yn cynnwys adnoddau sain a chlyweledol amrywiol, sydd i gyd ar gael i'r cyhoedd am ddim.

Er nad oes llawer o gasgliadau mawr yn benodol i grwpiau Du, Asiaidd a grwpiau ethnig eraill, mae gan y llyfrgell nifer o eitemau wedi'u gwasgaru ar draws ei chasgliadau.

Mae llawer o gasgliadau ac adnoddau o ddiddordeb, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gasgliad David Hawks
- Papurau James Griffith
- Papurau Tom Macdonald ar Tsieina a Japan
- Archif Mudiad Gwrth-Apartheid Cymru
- Casgliad Lluniau Gareth Vaughan Jones
- Albymau o’r Dwyrain Pell J.R Harding
- Albymau Morris Davies
- Archif Treftadaeth Jazz Cymru
- Papurau Pwyllgor Cymru yn Erbyn Hiliaeth

Gellir gweld catalog y llyfrgell yn: https://www.llyfrgell.cymru/catalogau-chwilio

Mae adnoddau defnyddiol eraill o ddiddordeb yn cynnwys:

- Hanes pobl Ddu yng Nghymru, Prydain a thu hwnt
  https://www.llyfrgell.cymru/catalogau-chwilio/am-ein-casgliadau/casgliadau-penodol/hanes-pobl-dduon-yng-nghymru-prydain-a-thu-hwnt
- Casgliadau Du, Asiaidd ac Ethnig Amrywiol
  https://www.llyfrgell.cymru/catalogau-chwilio/am-ein-casgliadau/casgliadau-penodol/casgliadau-du-asiaidd-ac-ethnig-amrywiol
- Paul Robeson a Chymru
  https://www.llyfrgell.cymru/newyddion/paul-robeson-a-chymru
- Thomas Picton: Arwr neu ddihiryn?
  https://www.llyfrgell.cymru/darganfod-dysgu/addysg/adnoddau-dysgu/thomas-picton-arwr-neu-ddihiryn
- Casgliad David Hawkes
  https://blog.library.wales/the-david-hawkes-collection/

- Casgliad Hanes Llafar Tiger Bay
  https://blog.library.wales/tiger-bay-oral-history-collection/
- James Albert Ukawsaw Gronniosaw, William Williams, Pantycelyn a'r Darlun o Gaethwasiaeth
  https://blog.library.wales/james-albert-ukawsaw-gronniosaw-william-williams-pantycelyn-and-the-depiction-of-slavery/
- Cymru a'r fasnach gaethweision
  https://blog.library.wales/wales-and-the-slave-trade
- Baledi Cymru
  Chwaraeodd baledi ran bwysig yn y broses o ledaenu newyddion drwy'r 18fed a'r 19eg ganrif, ac maent yn adlewyrchu llawer o faterion gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol y dydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â chaethwasiaeth a'i diddymiad. Mae Baledi Cymru Ar-lein ar gael yn https://www.llyfrgell.cymru/baledi.
- Calendr Cymru a'r Byd
  Dechreuwyd y calendr o ganlyniad i'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'n nodi digwyddiadau crefyddol, diwylliannol, ymwybyddiaeth, amrywiaeth a choffaol, a gwyliau banc. Mae'r digwyddiadau ar y calendr yn cysylltu ac yn arddangos y gwahanol eitemau yng nghasgliad bendigedig y Llyfrgell.
  https://www.llyfrgell.cymru/calendarcymruarbyd

*Yr Archifau Cenedlaethol*

Yr Archifau Cenedlaethol yw'r archif a chyhoeddwr swyddogol ar gyfer Llywodraeth y DU, ac ar gyfer Cymru a Lloegr. Maent yn casglu ac yn diogelu dyfodol cofnod y llywodraeth, yn ei warchod ar gyfer cenedlaethau i ddod, ac yn ei wneud yn hygyrch i'r cyhoedd yn eu hystafell chwilio yn Kew, Llundain ac ar-lein.

Mae gan yr Archifau Gwladol sawl cyfres o gofnodion a all gefnogi ymchwil i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig yn Ne Cymru. Gellir dod o hyd i ganllawiau ymchwil ar gyfresi penodol o gofnodion ar eu gwefan. Mae'r pynciau'n cynnwys Hynafiaid Caribïaidd, Cofnodion Mewnfudo a Mewnfudwyr a Chofnodion Pobl Gaeth. Mae crynodeb o ddetholiad o gofnodion nodedig wedi'i gynnwys isod.

Mae sawl cyfres o gofnodion yn yr Archifau Gwladol wedi'u digideiddio ac maent ar gael ar-lein trwy safleoedd hanes teuluol gan gynnwys Ancestry a Find My Past.

Ffurflenni cyfrifiad, 1841-1921
Mae cyfrifiad wedi cael ei gynnal yng Nghymru a Lloegr bob 10 mlynedd ers 1801. Mae manylion personol wedi cael eu cofnodi ers 1841. Mae'r ffurflenni'n gyfrinachol am 100 mlynedd ar ôl eu casglu. Mae'r rhai sydd ar gael ar gyfer ymchwil ar hyn o bryd yn dyddio o 1841-1921. Gwnaeth y wybodaeth a gasglwyd gynyddu gyda phob cyfrifiad, felly erbyn yr 20fed ganrif mae enwau, oedrannau, cyfeiriadau, mannau geni, statws priodasol, rhywedd yn cael eu cofnodi, ynghyd â manylion eraill.

Mae'r ffurflenni gwreiddiol yn cael eu cadw yn yr Archifau Gwladol, ond mae mynediad ar gael ar-lein trwy wefannau gan gynnwys Ancestry a Find My Past. Mae'r chwilio wedi'i dargedu at haneswyr teulu ac felly mae'n cael ei ddominyddu

gan chwilio enwau personol. Mae’n bosib chwilio am allweddeiriau, ond mae’r ymarferoldeb yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gyda rhai termau, e.e. "tai preswyl", gellir cael llwyddiant.


CENSUS OF ENGLAND AND WALES, 1911.

| | Name and Surname | Relationship to Head of Family | Age (Males) | Age (Females) | Particulars as to Marriage | Profession or Occupation | Employer, Worker or Own Account | Birthplace | Nationality | Language |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Emile Mahomet | Head | 40 | | Married | Boarding House Keeper | Own Account, At Home | Constantinople Turkey | Turk | Turk & English |
| 2 | Sarah Mahomet | Wife | | 30 | Married 7 yrs 4 2 2 | | | London | | English |
| 3 | Alexander Mahomet | Son | 7 | | | | | Cardiff Glamorgan | | English |
| 4 | Nalda Mahomet | Daughter | | 1 | | | | Cardiff Glamorgan | | |
| 5 | Ally Abram | Boarder | 30 | | Single | Ships Fireman, Merchant Service | Worker | Cyprus | | Turk & Eng |
| 6 | Hassan Chasm | Boarder | 36 | | Single | Ships Fireman | Worker | Constantinople Turkey | Turk | Turk & English |
| 7 | Spero Kiprofoulos | Boarder | 32 | | Single | Ships Fireman | Worker | Constantinople Turkey | Greek | |
| 8 | Georgie Nicholas | Boarder | 39 | | Single | Ships Donkeyman | Worker | Constantinople Turkey | Turk | |
| 9 | Abdullah Mamack | Boarder | 39 | | Single | Ships Fireman | Worker | Constantinople Turkey | Turk | Eng & Turk |
| 10 | Anastos Athanastos | Boarder | 35 | | Single | Ships Fireman | Worker | Constantinople Turkey | Greek | |
| 11 | Ahmed Hassan | Boarder | 34 | | Single | Ships Fireman | Worker | Constantinople Turkey | Turk | Eng & Turk |
| 12 | Mohamed Abdul | Boarder | 30 | | Single | Ships Donkeyman | Worker | Constantinople Turkey | Turk | Eng & Turk |

Total: Males 10, Females 2, Persons 12

Number of rooms: 7

Signature: Sarah Mahomet

Postal Address: 44 Bute St Cardiff

*44 Bute Street, Caerdydd, Cyfrifiad 1911*

<u>Cofrestr Cymru a Lloegr 1939</u>
Cymerwyd Cofrestr Cymru a Lloegr 1939 yn fuan ar ôl dechrau'r Ail Ryfel Byd gyda'r bwriad o gynhyrchu Cardiau Adnabod Cenedlaethol. Yn ddiweddarach, daeth y gofrestr yn amlswyddogaethol, yn gyntaf i helpu i ddefnyddio llyfrau dogni, yn ddiweddarach wrth helpu swyddogion i gofnodi symudiad y boblogaeth sifil dros y degawdau dilynol ac, o 1948, fel sail ar gyfer y Gofrestr Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gan fod cyfrifiad 1931 ar gyfer Cymru a Lloegr wedi'i ddinistrio gan dân yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac ni chymerwyd cyfrifiad ym 1941, mae Cofrestr 1939 yn adnodd achyddol hynod bwysig, nid yn unig am y manylion a'r wybodaeth gyfoethog a gofnodwyd ar gyfer pob person ac aelwyd, ond hefyd wrth helpu i bontio bwlch o 30 mlynedd yn nata'r cyfrifiad.

Mae ar gael ar-lein ar wefannau gan gynnwys Ancestry a Find My Past.

<u>Cofnodion dinasyddio, cofrestru a Dinasyddiaeth Brydeinig</u>
Dinasyddio yw'r broses gyfreithiol lle mae person yn newid ei genedligrwydd. Am gannoedd o flynyddoedd, mae gwladolion tramor wedi gallu ennill dinasyddiaeth Brydeinig trwy ddinasyddio. Cyn 1844 cafodd dinasyddio ei gymeradwyo trwy ddeddf seneddol. Ers 1844 y Swyddfa Gartref sy’n cymeradwyo dinasyddio. Mae cofnodion a gedwir yn yr Archifau Gwladol yn cynnwys tystysgrifau a phapurau achos dinasyddio. Gellir chwilio am Dystysgrifau a Datganiadau Dinasyddio ar gyfer y cyfnod 1870-1916 ar Ancestry; gellir chwilio cyfresi eraill drwy wefan yr Archifau Gwladol.

Rhestrau teithwyr sy'n cyrraedd
Mae rhestrau o deithwyr llongau a gyrhaeddai'r Deyrnas Unedig o borthladdoedd y tu allan i Ewrop a Môr y Canoldir yn cael eu cadw yn yr Archifau Gwladol ac maent ar gael i'w chwilio ar Ancestry. Mae'r wybodaeth a gofnodir yn cynnwys enw'r teithiwr, dyddiad geni neu oedran, dyddiad cyrraedd y DU, y porthladd ymadael a'r porthladd cyrraedd. Maent yn cwmpasu'r cyfnod 1878-1960.

*Arall*

Papurau newydd
Mae Papurau Newydd Cymru Ar-lein, a gynhelir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cynnwys dros 15 miliwn o erthyglau papur newydd Cymraeg y gellir eu chwilio, sy'n dyddio o 1804-1919. Yn ffynhonnell hynod ddefnyddiol, fe'i defnyddiwyd yn helaeth wrth brofi'r eirfa a gynhyrchwyd fel rhan o'r canllaw hwn.

Gellir dod o hyd i bapurau newydd hanesyddol mewn llyfrgelloedd lleol hefyd. Gweler uchod am fanylion.

Gellir defnyddio papurau newydd rhyngwladol i chwilio am ddeunydd Cymreig, er am ran helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a thu hwnt, cyfeiriwyd at Gymru yn aml fel Lloegr. Er enghraifft, wrth chwilio am "derfysgoedd hil yn Lloegr" ar y safle Australian Trove, gwelwyd sylwebaeth ryngwladol ar Derfysgoedd Hil Caerdydd ym 1919.

Gweler y cyflwyniad i'r Geirfa ar dudalen 36 am fanylion safleoedd papur newydd ar-lein.

Cofnodion Profiant (Ewyllysiau a Gweinyddiaethau)
Cyn 1858, yr Eglwys oedd yn ymdrin â phrofi ewyllysiau, a chedwir cofnodion ar gyfer Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ym 1858 symudodd y cyfrifoldeb hwn i'r Gofrestrfa Profiant. Gellir chwilio'r Calendr Profiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr am y cyfnod 1858-1995 ar-lein trwy Ancestry a gellir archebu copïau o ewyllysiau o'r Gofrestrfa Profiant.

Llyfrau Ffôn Prydeinig, 1880-1984
Cedwir llyfrau ffôn Prydeinig a gyhoeddwyd rhwng 1880, y flwyddyn ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth ffôn cyhoeddus yn y DU, ac 1984 yn Archifau BT. Gellir eu chwilio ar-lein trwy Ancestry. Cyhoeddwyd llyfrau ffôn bob un i ddwy flynedd ac felly maent yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dod o hyd i unigolion mewn man ac amser penodol. Gall yr adran hysbysebion hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer olrhain perchnogion busnes.

Cylchgronau Cymru Ar-lein
Mae Cylchgronau Cymru Ar-lein, a gynhelir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, yn darparu mynediad i gyfnodolion sy'n ymwneud â Chymru a gyhoeddwyd rhwng 1735-2007. Mae teitlau'n amrywio o gyhoeddiadau academaidd a gwyddonol i

gylchgronau llenyddol a phoblogaidd. Gellir chwilio testunau o dros 450 o deitlau ac 1.2 miliwn o dudalennau.

Llyfrgelloedd Ar-lein

Mae llyfrgelloedd ar-lein yn cynnwys safleoedd fel yr Internet Archive, Google Books a Project Gutenberg. Maent yn aml yn cynnig rhifynnau parth cyhoeddus o lyfrau am ddim i'w darllen ar-lein neu eu lawrlwytho, a gellir eu chwilio gan ddefnyddio allweddair/ymadroddion.

**Geirfa**

Mae hon yn eirfa o dermau, yn gymysgedd o eiriau unigol ac ymadroddion, y gellir ei defnyddio wrth ymchwilio i Hanes Lleiafrifoedd Ethnig mewn cofnodion hanesyddol. Mae terminoleg wedi newid yn sylweddol dros amser, ac ni fydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwn heddiw yn ymddangos mewn ffynonellau a gynhyrchwyd yn y gorffennol. Bwriad yr eirfa hon yn fodd o gael mynediad at gofnodion megis papurau newydd a all, drwy adnabod unigolion Ethnig Leiafrifol, arwain at ddogfennau perthnasol o fewn casgliadau archifau.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n canolbwyntio ar dermau hanesyddol, yn enwedig geiriau ac ymadroddion sy'n ymddangos yn archifau Cymru a deunydd print fel papurau newydd. Mae'r ffocws daearyddol ar Forgannwg. Am restr fwy cynhwysfawr sy'n ymdrin â phob agwedd ar Hanes Lleiafrifoedd Ethnig, gweler 'CHTNUK Cultural Heritage Terminology Network: Working to Decolonise the Language of the Heritage Sector'; adnodd ardderchog Clarissa Chew.

Datblygwyd rhestr gychwynnol o dermau hanesyddol yn ymwneud â phobl Ethnig Leiafrifol gan Norena Shopland ar y cyd â Chyngor Hil Cymru. Ychwanegwyd termau Cymraeg drwy chwilio geiriaduron hanesyddol, er bod angen mwy o waith yn y maes hwn. Yn aml, bydd termau Saesneg yn ymddangos o fewn deunydd iaith Gymraeg ac yn arwain at ganlyniadau.

Cafodd gwirfoddolwyr eu recriwtio i'r prosiect hwn i brofi termau a gafodd eu cynnwys yn y rhestr gychwynnol i benderfynu pa rai sy'n cynhyrchu canlyniadau llwyddiannus wrth chwilio mewn cyd-destun Cymraeg, ac yn enwedig o fewn cyd-destun De Cymru. Darganfuwyd termau ychwanegol yn ystod y broses hon a chawsant eu hychwanegu at y rhestr hon, sy'n sail i'r eirfa sy'n ymddangos isod. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw dermau eraill y gellid eu hychwanegu at y rhestr hon, rhowch wybod i ni.

Rhoddwyd rhestr o eiriau ac ymadroddion i wirfoddolwyr eu defnyddio i ddechrau eu hymchwil. Cawsant ganllaw ar chwilio a ddarparwyd trwy sesiynau hyfforddi cychwynnol a thaflenni. Roedd cefnogaeth gan dîm y prosiect ar gael drwy gydol y prosiect.

Cyfeiriwyd gwirfoddolwyr at ffynonellau ar-lein, gan gynnwys:

- Papurau Newydd Cymru Ar-lein
- Trove
- Papers Past
- Chronicling America
- Cylchgronau Cymru Ar-lein
- Baledi Cymru Ar-lein
- Google Books
- The Internet Archive

- Ancestry
- Find My Past

Roedd llawer o'r ymchwil yn canolbwyntio ar bapurau newydd ond, yn ôl eu natur, mae papurau newydd yn tynnu sylw at newyddion drwg, yn enwedig achosion troseddol.  Mae pobl Ethnig Leiafrifol yn ymddangos yn yr erthyglau hyn fel tystion, dioddefwyr a throseddwyr.

Darparwyd ffurflenni casglu cofnodion i sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu cofnodi'n unffurf a bod yr holl wybodaeth a chyfeiriadau angenrheidiol yn cael eu cofnodi.

Mae nifer cyfyngedig o enghreifftiau wedi'u cynnwys yng nghorff y canllaw hwn i ddangos sut y gellir defnyddio termau'r eirfa mewn ymchwil.  Mae enghreifftiau pellach wedi'u cynnwys yn Atodiad I, ac mae rhai o'r straeon a ddatgelwyd i'w gweld yn Atodiad II.

Cofiwch wrth wneud ymchwil ar-lein fod llawer o'r adnoddau sydd ar gael wedi'u creu o ffynonellau gwreiddiol gan ddefnyddio meddalwedd Adnabod Cymeriad Optegol (OCR).   Os yw tudalen wedi'i difrodi mewn unrhyw ffordd efallai na fydd modd adnabod rhai geiriau ac ymadroddion penodol, ac felly ni fyddant yn codi wrth chwilio.  Oherwydd difrod i dudalennau, neu destun aneglur, mae llafariaid yn aml yn cael eu newid gan y feddalwedd OCR (i ddysgu mwy am hyn gweler Norena Shopland, 'Finding a Celoured Man', ac Atodiad III am y cyfeiriad llawn).  Nid oedd sillafu o reidrwydd yn gyson yn y gorffennol, ac felly argymhellir chwilio gan ddefnyddio sillafiadau amrywiol, yn ogystal ag ychwanegu 's' neu gollnod ac yna 's' i dermau lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r cyfuniadau o dermau a awgrymir isod yn rhai a gododd yn ystod yr ymchwil hwn, a gellir cymhwyso llawer mwy.

| Term | Nodiadau |
|---|---|
| ***Cyffredinol*** | |
| Alien | Term a ddefnyddiwyd am dramorwr, yn enwedig un nad yw'n dinesydd dinasfreiniol o'r wlad lle maent yn byw. |
| Almond eye/d/s | |
| Black / Blacks | Mae'r term yma yn rhy gyffredinol i'w ddefnyddio ar ben ei hun felly ychwanegwch eiriau eraill megis complexion/ complexioned; faced; people; person; skin/skinned, etc. A hefyd enwau lleoedd e.e. 'Cardiff blacks.' |
| Coloured / Colored | Defnyddiwyd y sillafiad Americanaidd, heb yr u, o fewn rhai cyhoeddiadau.  I'w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill |

| | |
|---|---|
| | megis person; people; woman; man; child, ayb hefyd gyda'r lluosog trwy ychwanegu 's' gydag a heb y collnod. |
| Celestial/s | |
| Ching / Ching-chong | |
| Chink / Chinky | |
| Coolie | |
| Coon | |
| Creole | |
| Dago | |
| Dark complexion/complexioned | |
| Dark skin/skinned | |
| Darkie / Darkies / Darky / Darkey | |
| Dusky skin/skinned | |
| Half breed | Mae rhai cyhoeddiadau yn benodol iawn ac yn gofyn am ddefnydd cysylltnod megis half-breed; neu eiriau wedi uno, h.y. halfbreed |
| Half caste | Mae rhai cyhoeddiadau yn benodol iawn ac yn gofyn am ddefnydd cysylltnod megis half-caste; neu eiriau wedi uno, h.y. halfcaste |
| Hindu / Hindi / Hindoo | |
| Mulato / Mulatto / Muleto / Muletto | |
| Negro / Negroes / Negro's / Negress / Negresses | Term a ddefnyddir yn amlach mewn perthynas â'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill. |
| Nigger | |
| Octoroon | |
| Oriental | |
| People/person/s of colour/color | I'w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill fel yr awgrymir o dan 'Black'. |
| Sable | |
| Sambo / Samba | |
| Slave / Slavery | |
| Swarthy | |
| Tawny | |
| Woolly haired/locks | Hefyd woolly-haired |
| | |
| ***Pobl*** | |
| Black | I'w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill megis person; people; woman; women; female; lady; wife; mother; grandmother; girl; man; male; men; gentleman/men; husband; father; grandfather; baby; child ayb. |
| Coloured / Colored, or (term) of colour | I'w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill fel yr awgrymir o dan 'Black'. |

| | |
|---|---|
| Dark / Dusky | I’w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill fel yr awgrymir o dan ‘Black’. |
| Piccaninny / Piccaninnies / Picaninny / Picaniny / Piccaniny / Pickininnie | Term ar gyfer plentyn sydd â sillafiadau amrywiol. |
| Tawny | I’w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill fel yr awgrymir o dan ‘Black’. |
| Yellow | |
| | |
| ***Swyddi*** | Gellir defnyddio nifer o alwedigaethau ar y cyd â'r termau a awgrymir uchod. Dim ond ychydig o’r rhai y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr ymchwil hwn yw’r rhain. |
| Boxer | |
| Collier | |
| Fireman / Firemen | |
| Labourer | |
| Sailor / Seaman / Seamen | |
| Servant | |
| Lascar/s | |
| | |
| ***Lleoedd*** | Gellir defnyddio nifer o enwau lleoedd ar y cyd â'r termau a awgrymir uchod. Awgrymwyd rhai cyfuniadau yma. |
| Blacks AND Cardiff | |
| Cardiff Negro | |
| Niggertown | |
| Tiger Bay | |
| | |
| ***Hiliau*** | Dim ond ychydig o hiliau sydd wedi'u cynnwys yma fel rhan o'r prosiect hwn; mae llawer mwy sydd angen ymchwil pellach.<br><br>I’w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill fel yr awgrymir o dan ‘Black’. |
| African | |
| Arab | |
| Asian | |
| Cafir / Caffir / Kaffir | |
| Chinese | |
| Ethiopian | |
| Japanese | |
| Mongolian | |
| Somali | |
| Zulu | |
| | |
| ***Termau Cymraeg*** | Dyma restr fechan o dermau Cymraeg a brofwyd yn ystod y prosiect yma; mae |

| | |
|---|---|
| | angen ymchwil pellach i dermau Cymraeg.<br><br>Bydd nifer o'r termau Saesneg a restrwyd uchod yn ymddangos o fewn deunydd iaith Gymraeg. |
| Arabiaid | |
| Croenddu | |
| Du | I'w ddefnyddio ar y cyd â thermau eraill megis dyn; dynes; menyw; merch; bachgen; pentyn ayb. |
| Duon | |
| Hindw | |
| Melynddu | |
| Negroaid | |
| Pygddu | |
| Tywyll | |